ECO'R WYDDFA

RHIF 93 MEHEFIN 1984 Pris: 20c

## Y CANFED RHIFYN

**Rhifyn Chwefror 1985 fydd y canfed rhifyn o'r Eco – carreg filltir bwysig yn hanes eich papur bro. Bydd y rhifyn hwnnw, wrth gwrs, yn un arbennig.**

**Hoffai'r golygyddion dderbyn eich syniadau chwi ddarllenwyr yr Eco ynglŷn â chynnwys y canfed rhifyn er mwyn dechrau'r paratoadau cyn gynted ag y bo'r modd. Anfonwch eich awgrymiadau atom rhag blaen.**

# POBL LLANBERIS . . .

## YN CYDWEITHREDU



*Llun uchod: Dau bwyllgor yn cydweithredu. John Roberts, trysorydd y pwyllgor Maes Chwarae yn trosglwyddo siec am £900 i Mrs Ann Pritchard, trysorydd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa, a thu ôl iddynt — rhai o aelodau pwyllgor y Maes Chwarae. Cefn o'r chwith: Ken Sellars, W. Glyn Roberts a Bert Parry. O'u blaenau o'r chwith: Trevor Edwards, Raymond Foulkes, Roy Griffiths a Selwyn Pritchard. Nid oedd Danny Roberts a Gwyn Williams yn bresennol pan dynnwyd y llun.*

**Mae cwmni drama Llanberis yn y broses o brynu hen festri capel Gorffwysfa gyda'r bwriad o addasu'r lle'n ganolfan a elwir yn Theatr Fach Gorffwysfa. Bu diffyg lle sefydlog i gynnal ymarferiadau ac i gadw offer yn destun pryder i'r cwmni ers rhai blynyddoedd bellach. Ond er gwaethaf amryw o anawsterau fe lwyddodd y cwmni i roi perfformiadau caboledig ar lwyfannau ledled Cymru gan ennill enw da iddo'i hun ac i'r pentref.**

Pan roddwyd festri Gorffwysfa yn ôl ar y farchnad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd y pris sef £3000 cyn sôn am gostau addasu'r lle, yn achosi amheuon ym meddyliau rhai o'r cwmni.

Ond aed â'r maen i'r wal a chafwyd unfrydiaeth, diolch yn bennaf i ddycnwch a dyfalbarhad is-gadeirydd y Cwmni. Gwyddai Bert Parry, oedd hefyd yn ysgrifennydd Pwyllgor Maes Chwarae Coed y Ddôl, fod gan y pwyllgor hwnnw tua £900 (nad oeddynt ei angen) yn eu coffrau. (Swm a gasglwyd ar gyfer addasu a chael offer yn y maes chwarae – ond Cyngor Arfon fu'n gyfrifol am hyn.)

Llwyddodd Bert Parry i ddadlau achos y Cwmni Drama yn llwyddiannus mewn cyfarfod o'r pwyllgor Maes Chwarae. Eglurodd nad ar gyfer defnydd y cwmni drama yn unig y byddai'r lle. Pwysleisiodd y ffaith y gallasai unrhyw gymdeithas yn y pentref ei ddefnyddio, neu ei logi'n rhad. Derbyniwyd y byddai'r pentref yn elwa a phenderfynwyd trosglwyddo'r arian i'r Cwmni Drama.

Ar ôl cael addewid am fenthyciadau o'r banc penderfynwyd prynu'r festri a chodwyd ymddiriedolwyr o blith y cwmni gan gynnwys dau o'r pwyllgor Maes Chwarae sef Mr W. Glyn Roberts a Mr Bert Parry.

Gan y bydd angen llawer mwy o arian i addasu'r festri yn Theatr Fach mae Ann Parry Jones, Llanrug a Marion Davies a William Glyn Roberts o Lanberis wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o drefnu gweithgareddau i'r pwrpas yma ar ran y Cwmni.

Ymhlith y pethau sydd wedi eu trefnu o hyn hyd Ionawr 1985 mae Cyngerdd Mawreddog, Noson Lawen, Bingo, Cadw'n Heini Noddedig, yn ogystal â nosweithiau llawen i'w cynnal gan y cwmni ei hunan.

Mae nifer o gyfeillion y Cwmni, yn unigolion ac yn gymdeithasau, eisoes wedi cyfrannu'n hael. (Gweler colofnau'r pentrefi yn y rhifyn hwn.)

Diolchodd Mrs Ann Pritchard, ar ran y cwmni, i bobl y fro am eu cefnogaeth a'u dymuniadau da.

Os oes unrhyw un yn teimlo fel cefnogi ymgyrch Theatr Fach Gorffwysfa yna cysylltwch ag un ai Mrs Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis (871231) neu Mr Gwilym Rees Parry, Banc y Midland. Llanberis.

## YN DANGOS EU DEWRDER

Geneth ddewr iawn yw Faun Clarida, merch 9 oed Mr a Mrs G. Clarida, 52 Dôl Elidir. Achubodd fywyd ei chefnder Carl Roberts pan oedd ar ei wyliau yn Llanberis yn ddiweddar. Pysgota oedd Carl (5 oed) pan syrthiodd i'r afon, sy'n bur ddofn wrth Bont Fain, o dan Gastell Dolbadarn. Heb betruso neidiodd Faun i mewn a'i achub. Da iawn wir, Faun!

Yn y llun mae Faun a'i ffrind Helen Thomas, a oedd gyda hi pan achubodd ei chefnder, yn pwyntio at y lle y disgynnodd Carl.



## . . . AC YN DANGOS DAWN ATHLETAIDD



Llongyfarchiadau calonnog i Melanie Sellars o Lanberis sy'n dangos cryn ddawn fel athletwraig! Llwyddodd i ennill y Victrix Ludorum (yr eneth gyda'r mwyaf o farciau) ym mabolgampau Ysgol Brynrefail am y pumed tro! Dyma record a fydd yn anodd iawn i'w churo.

Yn y llun isod mae Helen Mai Pritchard o Nant Peris sy'n rhannu'r anrhydedd gyda Melanie – gan iddi hithau ennill 40 o fraciau i'w thŷ. Gyda hi mae pencampwr y bechgyn, Stuart Williams o Lanrug (27 marc). Llongyfarchiadau calonnog iddynt hwythau.



# ECO'R WYDDFA


**RHIF 93**
**MEHEFIN 1984**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (Caernarfon 77163)
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN:** W.O.Williams 6 Rhyd-adog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU:** Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**MEHEFIN 28**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH MEHEFIN 19**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

### DIOLCH AM DDANGOS LLUN

Annwyl Olygydd,

Gair o ddiolch i chwi am roddi'r llun o ddosbarth Ysgol Waunfawr wedi ei dynnu tua 1934 yn y papur 'Eco'r Wyddfa'.

Pleser mawr i mi oedd gweld hen ffrindiau dyddiau ysgol. Yr oeddwn i yn un ohonynt.

Ein hathrawes oedd y ddiweddar Miss Margy Parry, Bryn Tawel, Waunfawr.

Tybed a fuasech yn derbyn y rhodd yma at Eco'r Wyddfa.

Byddaf yn edrych ymlaen am y newyddion o'r Waun a'r cylch er byw yma ers blynyddoedd bellach.

Eto diolch yn fawr iawn i chwi.

Yn gywir,

(Mrs) Nancy Myra Carter
Moel Eilian
6 Cedar Road
Portwood
Southampton
S02 0HP

### DIOLCH I MRS BUDDUG GRIFFITH

*Annwyl Olygydd,*

*Carwn innau ddiolch fel y gwnaeth fy hen gyfaill, Mr Ifor Williams, i Mrs Buddug Griffith, Llanfaircaereinion, am ei hysgrifau hynod ddiddorol am Glwt-y-bont, yn y ddau rifyn olaf o 'Eco'r Wyddfa'. Rhoes eu darllen, fe i'm cyfaill, ddiddanwch pur imi gan ddwyn y gorffennol yn fyw yn ôl a phrocio atgofion ynof am a anghofiaswn.*

*Cofiaf yn dda deulu Mrs Griffith gan imi weithio yn yr un bonc â'i thad a hollti a naddu yn yr un sied a bwyta yn yr un caban â'i brawd cyn i rwb Panws ein gwahanu a'm gorfodi innau i symud i ran arall o'r chwarel — ond stori arall yw honno. Gweithiwr caled a diarbed oedd Mr John Griffith, Bryn Du, tad Mrs Griffith, ac yn un o golofnau Maes-y-dref, capel sydd bellach wedi ei gau. Yr oedd ei brawd Elwyn yn ffefryn gennyf yn sied Awstralia gyda'i islais dymunol a'i gwrteisi nodweddiadol.*

*Bellach daeth tro ar fyd ac ymadawodd y teulu hwn o dad a mam a phedwar o blant, y mwyafrif ohonynt i'r tuhwnt, gan adael i'r blynyddoedd eco ein colled a'n chwithdod amdanynt.*

*Ar ôl derbyn yr arlwy flasus hon gan Mrs Griffith, gobeithiwn mai rhagflas yn unig ydyw o'r hyn sydd eto i ddod. Gwyddom eisoes am ei gallu o'i dyddiau cynnar, ac mae aeddfedrwydd ei phrofiad erbyn hyn, ynghyd â'i dawn lenyddol ddiamheuol yn datgan i lenor medrus arall darddu allan o bridd yr hen fro. Melys, moes mwy.*

*Diolch hefyd i Mr Ifor Williams am gyfeiriadaeth bwysig ei lythyr at enwau rhai tyddynnod yr hen ardal fel ag i'w diogelu rhag mynd ohonynt i ebargofiant.*

*Pob dymuniad da i'r Eco yn y blaen.*

*Yn gywir iawn,*
*D.R. Pritchard*
*Bow Street*
*Aberystwyth*

### ATGOF AM LAS LANCESI'R AMBIWLANS

*Annwyl Olygydd,*

*Hoffais weld y darlun o las-lancesi adran Llanrug o Fudiad Ambiwlans St. John mewn rhifyn diweddar o'r 'Eco'.*

*Mae clod yn ddyledus i'r hyfforddwyr ac yn enwedig i Mrs Lily Clarke (Miss Williams, Bryn Eryr, gynt).*

*Yn 1944 y tynnwyd y llun pan oeddem yn gwersyllfa ym Mhwllheli yn yr haf.*

*Rhoddodd Mrs Clarke lawer iawn o'i hamser i drefnu llawer o weithgareddau ar ein cyfer pan yn ein harddegau. Yn ogystal â'n dysgu mewn Cymorth Cyntaf a nyrsio trefnai lawer o gemau a theithiau yn yr awyr agored yn ystod nosweithiau'r haf. Yr oedd yn arloeswraig ym myd gwasanaeth ieuenctid a diolch iddi am hynny.*

*Mae un o'r criw oedd yn y darlun — sef Irene Parr gynt, a arferai letya adeg y rhyfel yn Penllel — yn byw yng Nghanada rŵan.*

*Gallaf ei chlywed rŵan â chlust atgo yn gofyn yn ein drws cefn "Coming to club tonight kid?" — a ninnau wedyn yn mynd yn eiddgar i'r Dosbarth St John yn hen ysgol Bryn Eryr!*

*Morfudd E. Jones*
*Llangefni*

### CYNLLUN – ARIAN TRAMOR

Mae'r Parch J. Aelwyn Roberts, Ficer Llandegai, wedi esgor ar gynllun gwreiddiol iawn i hel arian at dalu costau SAMARIAID GWYNEDD sydd wedi agor eu drysau a'r gwifrau ffôn ym Mangor eleni.

Ceisio hel Arian Papur Gwledydd Tramor mae'r ficer.

Dywed wrthym fod gan pob banc ym Mangor gronfa i dderbyn, a newid yr arian yma. Mae'r banciau eraill yng Ngwynedd yn gwybod am y cynllun. Felly os oes rhywun wedi dychwelyd o wyliau a chanfod fod iddo ychydig o 'Francs' neu 'Deutschmarks' neu 'Kroner' neu arian papur unrhyw wlad dramor i gael sydd efallai yn rhy isel eu gwerth i'w newid, yna fe ellir eu cyfrannu i'r SAMARIAID.

Y cwbl raid ei wneud ydi talu'r arian i mewn dros gowntar unrhyw fanc yng Ngwynedd a dweud ei fod o i fynd i SAMARIAID GWYNEDD.

Mae Mr Roberts eisoes wedi anfon posteri, i roi gwybodaeth am y cynllun, i ysgolion, a cholegau, i ffatrioedd, a swyddfeydd. Yr hyn fasa'n help i hyrwyddo'r cynllun fasa cael un person ym mhob gwaith, neu ym mhob bro i hynu'r fenter. Os oes gwirfoddolwyr, ffôn Mr Roberts ydi BANGOR 353711.

Dywed y Parchedig Aelwyn Roberts hefyd ei fod yn sicr fod yna dipyn go lew o arian tramor yn eistedd ar silffoedd pen tân ac mewn waledi a bagiau llaw ac y gallai'r rhain godi'r gronfa cyn derbyn arian gwyliau eleni yn nes ymlaen.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


## RHAID CAEL LLAIS CRYF I OGLEDD CYMRU YN EWROP

**Annwyl Gyfeillion,**

Ar Fehefin 14eg eleni, daw cyfle i bob un ohonom bleidleisio i ddewis Aelod Seneddol i'n cynrychioli yn Senedd Ewrop. Ystyriaf hi'n fraint ac yn anrhydedd i gyflwyno fy hun fel ymgeisydd Plaid Cymru yn etholaeth Gogledd Cymru. Mae'r etholaeth enfawr hon yn cynnwys Maldwyn gyfan yn ogystal â Gwynedd a Chlwyd. Mae gwaith ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan yr Athro Balsam o Goleg y Brifysgol Aberystwyth ar sail etholiad Ewrop 1979 (pan gafodd Plaid Cymru dros 34,000 o bleidleisiau) ac etholiadau seneddol ers hynny, yn dangos yn eglur mai brwydr rhwng Plaid Cymru a'r Toriaid fydd hi yma y tro hwn.

Dangosodd y cytundeb cwota llaeth yn ddiweddar gymaint yw'r angen am lais cryfach dros ffermwyr Cymru yn Ewrop. Yn wir, bradychwyd y ffermwr bach gan y Toriaid gan gymaint eu hawydd i amddiffyn bywoliaeth fras amaethwyr grawn Lloegr. Dangosodd Nicholas Edwards ei fod yn gwbl analluog i ddylanwadu ar y Gweinidog Amaeth ar ran ffermwyr Cymru.

Mae'r hyn a ddigwyddodd i'r ffermwyr yn digwydd i sectorau eraill ym mywyd Cymru, a'r unig ffordd i wella'r sefyllfa yw cael cynrychiolwyr sy'n mynd i sefyll yn gadarn dros fuddiannau Cymru ym Mrwsel. Dim ond Plaid Cymru all ddweud yn onest y bydd yn dadlau achos pobl Cymru yn gryf, yn gyson a di-flewyn-ar-dafod. Mae'n hen bryd i Gymru gael llais cryf yn Ewrop.

Mae Plaid Cymru yn cydweithredu â phleidiau eraill yng Nghynghrair Rydd Ewrop, a'u nod, yn fyr, fydd:

- sicrhau swyddfa barhaol i Gymru ym Mrwsel
- cryfhau'r Gronfa Ranbarthol
- diogelu'r ffermwr bach a'r ffermwr da byw wrth ad-drefnu'r C.A.P.
- ennill aelodaeth lawn o'r Gymuned i holl wledydd bach Ewrop, a chreu Ewrop ddi-niwclear
- cael mwy o gefnogaeth i holl ieithoedd Ewrop, gan gynnwys y Gymraeg.

Yr eiddoch yn ddiffuant,
**DAFYDD IWAN**



*Cyhoeddwyd gan Elfed Roberts, Swyddfa Plaid Cymru, Bryn Meurig, Dolgellau*

**Os ydych am fwy o fanylion, neu am helpu yn yr ymgyrch, cysylltwch ag: Swyddfa Plaid Cymru, Caernarfon. Ffôn: C'fon 2076**

**DAFYDD IWAN | X**

# HÔM GARD LLANRUG



*Diolch i Raymond Hughes, 32 Maes Cadnant, Caernarfon am roi benthyg y llun diddorol yma o 'Fyddin Dad' Llanrug inni. Ni wyddom pryd y tynnwyd y llun.*

# 29 O SWYDDI

Cafodd Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol grant o £119,833 gan Gomisiwn Gwasanaethau'r Gweithwyr a fydd yn galluogi'r Ganolfan i gynnal dau gynllun gwaith gyda 29ain o swyddi newydd ar gyfer personau di-waith. Cynigiwyd y cynlluniau dros chwe mis yn ôl ond oherwydd y gwaharddiad a fu ar wariant y Rhaglenni Gwaith Cymunedol ers diwedd mis Tachwedd rhaid oedd aros am ymateb. Mae'r gymeradwyaeth hon o'r cynlluniau felly yn newyddion calonogol iawn i ardal sy'n dioddef o gyfradd o ddiweithdra uchel. Bu'r G.G.A.G. yn gyfrifol am nifer o gynlluniau gwaith eraill o dan nawdd C.G.G. yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Rhoddodd hyn waith yn ystod gwahanol gyfnodau i dros 60 o bersonau, a'r rhan helaethaf ohonynt o dan 30ain oed. Yn ogystal â chreu swyddi dros dro bu'r raddfa o gyflogi parthed swyddi amser llawn yn llwyddiannus hefyd – e.e. aeth 13eg allan o nifer o 18 o bersonau oedd ynghlwm â chynlluniau gwaith yn y Ganolfan ymlaen i swyddi parhaol. Bu'r gwaith a gyflawnwyd yn amrywiol iawn ac o fudd mawr i Gymru gyfan.

Bydd y cynlluniau gwaith newydd hyn yn ymestyn yn ogystal ag ychwanegu at y gwaith a gyflawnwyd gan aelodau'r cynlluniau gwaith blaenorol. Bydd y Cynllun ar gyfer y Ganolfan Adnoddau yn cyflogi 19eg o bersonau a rhyngddynt bydd angen cymysgedd o arbenigrwydd a sgiliau. Swyddi amser llawn fydd rhai ond y rhan fwyaf ohonynt yn swyddi rhan-amser yn amrywo o 20ain-32 o oriau'r wythnos. Bydd y gwaith yn cynnwys dosbarthu, catalogio a derbyn adnoddau; addasu adnoddau clyweled i'r Gymraeg; paratoi sleidiau a thapiau gwreiddiol; troslgwlyddo gwybodaeth parthed yr adnoddau ar y cyfrifiadur yn ogystal â pharatoi rhestrau gwybodaeth parthed yr adnoddau ar y cyfrifiadur yn ogystal â pharatoi rhestrau adnoddau. Rhyngddynt bydd angen amrywiaeth o sgiliau ar aelodau'r tîm, e.e., athro, gŵr neu wraig, llyfrgellwr neu llyfrgellwraig, photograffydd; dylunydd, teipydd yn ogystal â rhai gyda sgiliau ar gyfer cyfrifiadur.

Cyflogir 10 person i'r Uned Dysgu Dwyieithog, bydd angen cymwysterau athro ar y rhan fwyaf ohonynt, a bydd angen iddynt fod yn ddwyieithog. Bydd swydd y Goruchwyliwr aig a Theipydd yn amser llawn a bydd y gweddill yn swyddi rhan-amser yn amrywio o 20-30 awr yr wythnos. Yn ogystal â'r swyddi i athrawon bydd dwy swydd ar gyfer dylunwyr fydd yn gyfrifol am gynhyrchu gwaith graffeg i gyd-fynd â gofynion y gwaith a baratoir gan yr athrawon. Bydd y rhaglen yn cynnwys dyfeisio a pharatoi unedau dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol ar lefel Babanod, Iau ac Uwchradd yn ogystal ag ar gyfer Ysgolion Sul.

Yn ôl amodau y Cynlluniau Gwaith Cymuned mae'n ofynnol i bobl ifanc dan 25ain fod wedi bod yn ddi-waith am beth bynnag chwe mis yn ystod y naw mis blaenorol, a'r rhai dros 25ain am beth bynnag ddeuddeng mis yn ystod y pymtheng mis blaenorol.

Dywedodd Mr Thomas y byddai'r "ddau gynllun yn dechrau yn y dyfodol agos" ac y byddai'n "falch iawn o glywed gan y personau hynny sy'n credu eu bod yn gymwys neu a fydd wedi derbyn y cymwysterau priodol rhwng nawr a mis Medi. Hysbysir yr holl swyddi yn yr Executive Post (papur P.E.R. sy'n nodi rhagolygon gwith) yn ogystal ag yn y Canolfannau Gwaith lleol."

Ychwanegodd Mr Thomas "ei fod yn gobeithio yn fawr iawn y bydd Cymry Cymraeg yn ceisio am y swyddi y tro yma. Mae rhai carfannau yng Nghymru yn gweiddi'n groch am ddiffyg swyddi ond trafferth a gefais i yn y gorffennol i gael ceisiadau gan Gymry Cymraeg ond digon gan rhai di-Gymraeg. Fe fyddwn i yn falch iawn pe gellid roi'r naw swydd ar hugain i Gymry Cymraeg ond peidied neb â'n beirniadu os nad yw'r Cymry wedi ceisio amdanynt," meddai.

Ymholiadau i: Rheinallt A. Thomas, B.A., M.Ed.,
Trefnydd
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol,
Ysgol Addysg, C.P.G.C.,
Santes Fair, Lon Pobty,
Bangor, Gwynedd, LL57 iDZ.


## BARGEINION DODREFN
### I DDARLLENWYR YR ECO
**Dewch â'r ticed hwn at**
**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR** Ffôn 291
**i gael: £5** oddi ar **Wely Sengl**
**£10** oddi ar **Wely Dwbl**
**£20** oddi ar **'3 Piece Suite'**
**(un ticad am bob eitem)**
**ORIAU AGOR:** 9-7pm, 9-5pm Sadwrn
**Ar gau:** Sul, Mercher
Os nad ydych am dorri eich copi o'r Eco, dewch â'r cyfan efo chi i'w farcio'n unig.


## BRWDFRYDEDD RHYFEDDOL YN NYFFRYN OGWEN A'R CYLCH

Cyfarfu Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Ogwen a'r Cylch 1986 yn Ysgol Penybryn, Bethesda, nos Fawrth Mai 16 dan gadeiryddiaeth Mr William Lloyd Davies.

Dywedodd Mr Neville Hughes, Trysorydd yr Eisteddfod bod dros £20,000 wedi dod i law eisoes tuag at y cyfanswm o £175,000 y bydd ei angen i wneud llwyddiant o'r Ŵyl ieuenctid fwyaf yng Ngorllewin Ewrop. Eglurodd mai rhyw £100,000 oedd nod y gronfa leol a'r Awdurdodau Lleol ac yr oedd cael y pumed ran o hwn ddwy flynedd cyn yr Eisteddfod yn galondid mawr. Cafwyd adroddiadau o'r gwahanol ardaloedd yn dangos brwdfrydedd rhyfeddol i gyrraedd y nod.

**Pwyllgorau Testunau**

Cafwyd adroddiadau o'r gwahanol bwyllgorau sy'n gyfrifol am osod y llu cystadlaethau a fydd yn y testunau. Gwelwyd bod 4 ohonynt wedi cwblhau'r gwaith a bod 3 arall bron iawn â gorffen.

Dywedodd Mrs Branwen Jarvis, Cadeirydd y Pwyllgor Llên yr hoffent osod cystadlaethau llên i ddysgwyr a chyflwyno Medal y Dysgwyr. Penderfynwyd drwy fwyafrif llethol bwyso am gael dileu cystadlaethau cerdd dant ail iaith a chael rhagor o gystadlaethau i blant dan anfantais yn eu lle.

**Cyffro Castell Penrhyn**

Cyflwynwyd adroddiad y pwyllgor sy'n trefnu diwrnod o hwyl i'r teulu dan yr enw Cyffro Castell Penrhyn ym mharc y Penrhyn, Llandegai, ddydd Sadwrn, Mehefin 23 o 11 y bore hyd 5 yr hwyr. Dywedwyd bod Côr Meibion y Penrhyn, Maffia Mr Hughes, partïon dawnsio, canu a chwarae offerynnau o ysgolion y cylch yn diddanu'r torfeydd. Arweinydd yr adloniant fydd Gari Williams ac R. Alun Evans fydd Llywydd y dydd. Bydd yr holl bwyllgorau lleol yn trefnu stondinau o bob math a cheir gwahanol chwaraeon ac arddangosfeydd yn ogystal â mini-marathon o gwmpas y parc. Os bydd yn bwrw glaw gobeithir cynnal yr Ŵyl yn Fferm y Coleg, Aber.

Adroddwyd bod Pwyllgor Gŵyl y Cyhoeddi y flwyddyn nesaf eisoes wedi dechrau trefnu'r dathlu yn ystod wythnos olaf Ebrill ac wythnos gyntaf Mai 1985 gan ddod â holl gylch yr Eisteddfod i mewn i'r gweithgareddau o Fangor i Ddyffryn Ogwen ac o Lanfairfechan ac Aber i Rhiwlas a'r Felinheli.

"Mae'r holl weithgareddau – yn rhai swyddogol ac answyddogol – yn dangos ysbryd ardderchog ymhob rhan o gylch yr Eisteddfod ac yn ernes o 'steddfod i'w chofio," meddai Mr William Lloyd Davies.

Gyda chyfarchion Swyddog Cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod.

**EISTEDDFOD GORONOG BRO LLANDEGFAN**
**Gorffennaf 6 a 7**
**yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan**
**Cyfarfod nos Wener am 6.00 o'r gloch**
**dydd Sadwrn am 12.30 a 6.30 o'r gloch**
**Testunau gan yr ysgrifennydd:**
**Bill Davies, 14 Gwêl Eryri, Llandegfan, Môn**
**Ffôn: Porthaethwy 713194**

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)**

YR YSGOL: **Nofwyr:** Cyflwynwyd tystysgrifau a bathodynnau i'r plant canlynol gan gadeirydd y rheolwyr, Mr Eurig Wyn: Arian: Rachel Pierce, Suzanne Jacobs, Efydd: Felicity Duncan, Haf Parry, Caroline Williams, 600m, 400m, 200m Ffion Jackson. 200, Scott Lord, Osian Gwynedd. 100m Leanne Mallinson, Sam Pierce, Susan Grindey, Rhys Siôn, Paul Stevens, Meilir Gwynedd, Jaimie Basterfield. 50m, Nia Llwyd, Avril Charge, Alaw Jones, Sharon Lewis. 20m, Andrew Beech, Amanda Griffith, Suzanne Beech, Richard Beech. Dysgwyr, Rachael Davies, Elin Gwilym a Sara Williams.

**Wythnos Cymorth Cristnogol:** Cafwyd gwasanaeth arbennig ar fore Gwener i gloi'r Wythnos Cymorth Cristnogol. Yn bresennol yr oedd y Ficer, y Parch Trefor Jones a Mr Richard Parry o Gaernarfon. Trosglwyddwyd siec o £20 i Mr Jones o gasgliad wythnosol y plant.

**Gwerthu recordiau:** Fe un o'r deg unigolyn a werthodd fwyaf o recordiau Cymraeg yn yr Ymgyrch Recordiau 1983 gwahoddwyd Shoned Rees Roberts i ymweld â Stiwdio Sain ar Fai 4 ac wedyn i ginio yng Ngwesty'r Stables.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun nos Iau Mai 3.

Croesawodd Mrs C.A. Jones y llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd adferiad buan i Mr Overy.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf. Cynhelir arddangosfa sirol o grefftau yng Nghaernarfon a Phwllheli Mai 21-Mehefin 3 i ddathlu Pythefnos Hyrwyddo Sefydliad y Merched.

Bydd Bws Arddangosfa Sefydliad y Merched yng Nghaernarfon Gorffennaf 30, 31 ac Awst 1. Cynhelir cystadleuaeth rhagarweiniol o'r 'Rose Bowl a'r Brecon Cup' yn y Neuadd Penrhosgarnedd nos Iau, Mehefin 14. Mrs Katie Wyn Jones yw'r cynrychiolydd i fynychu'r Cyfarfod Gwanwyn a gynhelir yn Bryn y Neuadd Llanfairfechan.

Cafwyd trafodaeth ar y penderfyniadau i'w trafod yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain gan y wraig wadd, Miss Elen Owen. Diolchwyd iddi gan Mrs Katie Wynn Jones.

Enillodd Mrs Missen y raffl a roddwyd gan Mrs Morgan Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Trewen, cartref Mrs Buddug Rowlands nos Iau Mehefin 7.

CARNIFAL YR YSGOL FEITHRIN: Wythnos y Carnifal – **25-30 Mehefin 1984.**

Fe ddechreuir gweithgareddau'r Carnifal eleni hefo noson coroni'r Frenhines Heidi yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Mehefin 21. Fe'i choroni'r gan y Frenhines Felicity, ac i ddilyn fe gawn adloniant gan Dafydd Iwan.

**Nos Lun Mehefin 25:** Cystadleuaeth pêl-droed 5-bob-ochr. **Nos Fercher, Mehefin 27:** Gemau Giamocs. **Dydd Sadwrn, Mehefin 30:** Carnifal a Mabolgampau gyda Syr Wymff yn beirniadu'r gwisg ffansi. **Mwy o fanylion ymhellach ymlaen.**

Trefnwyd trip i'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Arfon i ddathlu'r Ŵyl Feithrin eleni, ac ar ôl nofio cael gwledd o 'chips'. Diolch i bawb am ddod.

CLWB GWYRFAI: Ebrill 26 cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r clwb yn Neuadd yr Eglwys i drafod gweithgareddau'r Eglwys i drafod gweithgareddau hyd ddiwedd y tymor. Ailetholwyd y pwyllgor presennol. Trefnwyd ar gyfer y Ffair Wanwyn a hefyd dyddiad y trip i'r Bala ar Fai 22. Mai 4 cynhaliwyd Ffair Wanwyn y Clwb yn Neuadd yr Eglwys ar Fai 4. Bu'n achlysur llwyddiannus gyda stondinau amrywiol yn gwneud elw da. Yn absenoldeb y llywydd diolchodd Mrs Idris Jones, ysgrifennydd, i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd at y llwyddiant.

MERCHED Y WAWR: 'Trin eich car' oedd testun sgwrs Rhodri Prys Jones yng nghyfarfod mis Ebrill, o dan lywyddiaeth Mrs Gweneirys Jones. Diolchwyd iddo am sgwrs ddifyr a diddorol iawn gan Mrs Mary Vaughan Jones. Llongyfarchwyd yr Ysgrifennydd, Mrs Sylvia Prys Jones, ar enedigaeth mab bychan, Ifan Morgan, a hefyd y trysorydd, Mrs Iona Williams ar briodas ei merch, Delyth.

Trefnir taith a swper ar Fehefin 28, a gofynnir i bawb sy'n bwriadu dod ar y daith gysylltu â Mrs Iona Williams, Llwydiarth.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: 1: £40, Mrs M.B. Davies, Bryn Eithin; 2: £25, Mr Wyre Thomas, Weiglodd Fawr; 3: £10, Mrs Helen Jones, 7 Dôl Erddi.

LLONGYFARCHIADAU: i Anna Lloyd Hughes, Treflan Isa, ar gael swydd fel athrawes yn Ysgol Uwchradd Pwllheli.

DIOLCH: Dymuna Cangen Arfon o 'Muscular Dystrophy' ddiolch i'r rhai a gymerodd ran mewn noson hynod o lwyddiannus ym Mryn Eirian yn ddiweddar. Diolch hefyd am y gefnogaeth wych a gafwyd unwaith eto i'r ymgyrch o godi arian at waith ymchwil i'r salwch yma. Trefnir mwy o weithgareddau cyn diwedd y tymor.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian, Iris a John, yn eu profedigaeth lem o golli gwraig a mam annwyl a siriol bob amser. Tyst o gymeriad hoffus Greta oedd y nifer a oedd yn bresennol yn yr angladd ym Metws Garmon.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Robert Jones, Castle View ar golli brawd, sef Mr Huw Jones (Tyddyn Bach gynt) yn Nhregarth.

Â Mrs E.A. Evans, Glan Gors ar golli chwaer, sef Mrs M.K. Williams o Abersoch a oedd yn 97 oed.

Â Mrs M.A. Owen, Tref Eilian ar golli brawd yn Nhalysarn.

Ac â Mrs Joan Davies, Nant y Mynydd ar golli mam.

ADREF O'R YSBYTY: daeth Mrs Pierce, Dôl Erddi, Mr Richard Rowlands, Bryn Golau, Mrs Barbara Griffiths, Tref Eilian a Miss J.A. Owen, Castle View. Gobeithio eu bod i gyd yn parhau i wella.

YN YR YSBYTY: mae Mr R.W. Roberts, Bryn Golau. Anfonwn ein cofion ato a dymunw wellhad llwyr a buan iddo.

Drwg oedd clywed fod Garem Jackson wedi ei anafu ar ôl syrthio oddi ar ei feic.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Ebrill: 1: Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn, 2: Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin; 3: Mrs N. Miles, Trefeddyg.

LLONGYFARCHIADAU: i Osian Gwynedd, Nant ar lwyddo yn Arholiad Sirol Ysgol Sul Henaduriaeth Arfon. Gworwywyd ef yng Nghapel Twr Gwyn, Bangor ar Fai 15. Hefyd llongyfarchion i'r oll o blant y pentref a lwyddodd yn yr Arholiad Llafar. Da iawn hwynt.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwyn Thomas, Treforfan, sydd wedi llwyddo mewn arholiad Gradd 4 (clarinet) gydag anrhydedd, ac Iwan Ellis, Glyn Awel, Gradd 5 (ffliwt) gyda theilyngdod.

DIOLCH: Dymuna Delyth a Michael Jones, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.


CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR



## AR WERTH

**3 BEIC PLENTYN** i fyny i 12 oed
**1 BEIC BACHGEN** i fyny i 14 oed.
*Portdinorwig 670 861.*

**DAU BÂR O ESGIDIAU PÊL-DROED** (maint 3). *Ffôn: Caernarfon 4470.*

**MINI 1974.** M.O.T. tan Tachwedd. *Ffôn: Llanberis 870335.*


# NANT PERIS

GYMANFA: Cafwyd gymanfa lewyrchus iawn ar y Sul cyntaf o Fai yn Rehoboth dan arweiniad Mr John Jones, Deiniolen. Llongyfarchiadau i'r plant i gyd ar eu llwyddiant yn yr arholiadau. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i'w gwneud yn gymaint o lwyddiant.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Llinos Haf, 10 Glanrafon ar fod yn llwyddiannus yn arholiad gradd cyntaf am ganu'r piano. Hefyd i Helen Mai, Tŷ Isaf ar ei llwyddiant ym mabolgampau Ysgol Brynrefail ac i Karen Price, Glyn Peris ar gael ei dewis yn forwyn i Frenhines y Carnifal yn Llanberis.

Dyma bennill a gyfansoddodd David, Llys Awel er cof am ei daid, Mr T.J. Roberts a fu farw'n ddiweddar. Mae David yn efrydydd ar ei flwyddyn gyntaf yng Ngholeg Caerfyrddin.

TAID

**Fe saif atgof yn drwm ar fy nghalon**
**A'r gorffennol braf yn llithro o'm blaen**
**Fel siwrnai hir, ond sirnai afradlon**
**Hyd lwybrau coeth. Adegau gynt ar faen**
**Yn prancio'n ysgafn o flaen mwgwd du**
**Yr angau a larpiodd bywyd hen ŵr**
**Gan faeddu gogoniant mwyn gynt a fu.**
**Drwy nofio'n oer mewn deigryn megis dŵr**
**Hir gofio wnaf yr amser hapus gynt**
**Pan heini ydoedd a llawen ei gân**
**Mewn oedfa a phregeth neu fydol hynt,**
**A bythwyrdd ei ŵen ymysg adar mân.**
**Nid oes ar ei ôl ond hiraeth cytûn**
**A bwlch mewn cartref a naddodd ei hun.**



*Llun o wersyll oedolion cynta yn Llangrannog 1938 gan Gwilym S. Jones, Nant Peris.*


# CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR, CEUNANT, TAN-Y-COED a BETWS GARMON — **GARETH JONES**, Glyn Ceris, Waunfawr. (Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS, CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL a DINORWIG — **WILLIAM ROBERTS**, Hyfrydle Road, Capel Coch, Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN, SEION, LLANDDEINIOLEN, TREGARTH, M. LLANDEGAI — **JOHN R. JONES**, Clarke Terrace, Ffordd Llanberis, Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW' YNGLŶN Â'CH HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR EICH AELWYD **Prudential**

# DIWRNOD Y TRIP

**gan Goronwy Owen**

**"O'r Arglwydd mawr, o'r Arglwydd mawr."**

**Ie, gweddïo 'roedd hi, ond nid gweddi gyffredin godai o wefusau Nel Parri. Yn wir, ar ôl clywed y stori droeon gan fy mam, nid ydw i'n sicr fod wnelo'r Bod Mawr ddim byd â'r achlysur, er bod y weddi yn dod o galon calon y fam druan. Digon o waith y daeth ateb oddi uchod, ond digwyddodd pethau yn sydyn iawn ar y ddaear, yn llawer rhy sydyn i Harri a minnau. Rhyw bedair oed oeddem, a'n mamau wedi'n gwisgo ni'n dau y noson cyn y trip, mewn dillad newydd, – siwtia bach ystafn glân. Daeth Mrs. Parri a Harri i lawr i'n tŷ ni i'w ddangos, a mawr oedd yr edmygedd. Yna fe anfonwyd y ddau ohonom allan i chwarae tra roedd yr oedolion yn sgwrsio. Ffolineb anhygoel. Yn gynharach, roeddwn i wedi darganfod trysor, yn ein cwt glo. Trysor arbennig dros ben, sef tun ffres o gol tar. Dydi trysor, i blentyn bach o ddim pwrpas os na all e ei rannu hefo'i ffrind, a rhannu col tar wnaeth Harri a minnau. Dychmygwch chi yn gweddill o'r stori. Rydw i yn naturiol wedi anghofio'r manylion, ond mi allan ddal i glywed erfyniad mam Harri.**

Byddem yn dechrau casglu arian ar gyfer y trip, fisoedd ymlaen llaw. Rhoddai Thomas Rowlands Min Afon, a Tom Bee Hive, gerdyn bach i bob un ohonom, ac aem â cheiniog neu ddwy hefo ni i'r Ysgol Sul, bob Saboth. Nos Wener cyn y trip, brysiem i'r festri i dderbyn ein cyfanswm, ac arwahân i bisin tair neu chwechyn fyddai ewyrth neu fodryb yn stwffio i'n llaw, dyna'n arian poced, ac roedd tri neu bedwar swllt yn ffortiwn.


Oeddem, roeddem yn codi'n gynnar, bore'r Sadwrn penodedig, ond i fynd i fyny i ben Rallt Fawr wrth droed Dinas i wylio Rasus Moto Beics. Treialon oedd y rhain. Prynhawn Gwener, deuai beic a seidcar o gyfeiriad Nant i fyny Allt Snowdon View a drosodd i'r Waun, i farcio'r ffordd hefo lliwiau glas ac oren. Byddai sŵn anarferol y peiriannau bach, fel rhes o wenynnod meirch yn fy neffro yn gynnar. Wedi gwisgo, rhedem i fyny i'r man y tybiem ni oedd y lle gorau, sef y pen uchaf yr allt. Yma y byddai'r rhan fwyaf yn methu cario 'mlaen. Ni allan lai nag edmygu y beicwyr cynnar rheini oedd yn mentro ffordd anodd, hefo moduron cyntefig, y rhan fwyaf yn cael eu gyrru hefo belt, nid cadwyn, ac ar ôl dod i dramgwydd, yn dal i wthio eu beic i fyny heibio Manllwyd a Chwm Uchaf. Deuai un merch mewn côt ledr fawr laes, goggls am ei hwyneb a het merch ar ei phen. Disgwyliem amdani fel hen ffrind, ac fe gâi hi hwre tipyn mwy na'r dynion.

Ar ôl i drên y trip adael, roedd y pentre yn wag. Rhyl oedd ein cyrchfan fel arfer, er i ni fentro i Landudno unwaith neu ddwy. Pasio Marine Lake a gweld y ffair, a'r trên bach yn pwffian o amgylch y llyn. Brysio allan o'r orsaf, ac yn syth i lan y môr, lle roedd pawb, oedolion a phlant yn drochi'u traed. Onid oedd y Dr Robaich wedi dweud ei fod yn beth llesol i iechyd dyn? Llosgi trycicle a reidio o gwmpas y llwybr neilltuol, pob un ohonom yn canu'r gloch, oherwydd roedden wedi talu am honno hefyd. Wrth gwrs, beic mawr oedd y rhai hyna yn logi, i reidio nôl a mlaen, ar hyd y promenâd. Yna ar ôl pryd o fwyd, i ymbleseru yn y ffair, – y ffigiwr wyth, reid ceffylau, tŷ'r bwgannod a neuadd y gwydrau, rhai o'r rheini nawr yn y Gerddi Llysiau. Agorwyd y pwll nofio tua'r amser yma, a chofiaf hefyd dalu am gael gweld car arfog Al Capone.

Candy fflos a sglodion, da da a hufen iâ, milk shakes a vimto, roedden ni'n gallu treulio'r cwbl, ac roedd 'na fargeinion i'w cael. Yno y prynais fy mat criced cyntaf am bum swllt ac wyth geiniog, pâr o shin guards a barodd i mi fy holl ddyddiau chwarae am swllt a thair, ac oriawr boced hanner coron a weithiodd yn berffaith am flwyddyn union.

Ond wnes i 'rioed fentro yn yr hen awyren fach 'na oedd yn cychwyn ger y Foryd, yn lwpio'r lŵp a dod lawr fel corkscrew, am bum swllt. Nid yn unig roedd y pris yn ormod, ond wedi gweld un neu ddau gwelw eu gwedd ar ôl glanio, yn cerdded ar goesau sigledig i gael gwared o'u cinio ar y tywod, roedd pob un ohonom yn ddigon hapus i gilio'n ôl i'r antyrion mwyaf cartrefol.

Prynu'n anrhegion a'i throi hi'n flinedig am adre. Rhaid oedd bodloni ar un trip y flwyddyn. Efallai mai dyna paham yr edrychem ymlaen mor eiddgar am y nesa'.



# DRAENOG

Dydd Sadwrn olaf Ebrill bu cwmni Barcud yn ffilmio golygfeydd ar Reilffordd Llyn Llanberis, ar gyfer y rhaglen 'Gwely a Brecwast'. Bu'n rhaid i beiriannydd y rheilffordd, a'i fab godi stêm yn un o'r injis bach, a threulio'r dydd yn pwffian yn ôl ac ymlaen ar hyd lannau'r llyn. Plesiwyd y peiriannydd yn arw iawn, yn gynnar yn y bore, pan roddwyd papur pumpunt iddo gan un o'r actorion.


"Dew," meddai wrth ei fab, "tip da ar ddechrau dydd fel hyn," a rhoi'r pumpunt yn ofalus yn ei boced. Dychmygwch y siom, pan ofynnwyd iddo, ar ddiwedd y ffilmio, i roi'r pumpunt yn ôl. Un o'r golygfeydd yn y ffilm oedd rhoi'r pres iddo, medda 'nhw'. Gobeithio nad oedd meicroffon gerllaw pan ddeallodd y peiriannydd hyn!

# RHODDION

Diolch i'r canlynol am y rhoddion hael tuag at gostau'r Eco:

£5: Mrs Nancy Myra Carter, Southampton
£3: Mr J.G. Owen, Caernarfon
Dilys Owen, Bryn Gwynedd, Stryd Newton, Llanberis.
£2: Mrs Helen Ireland, Awstralia
£1: Mr a Mrs E. Jones, Deiniol House, Deiniolen.
Ceridwen Thomas, Tai Caradog, Deiniolen


BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## BWTHYN FY NAIN

**Yr oeddwn yn gwneud Gwaith Gwyliau – (Holiday Relief) yn y Post yn Fourcrosses lawer blwyddyn yn ôl bellach. Daeth y diweddar Mr John Rowlands i fewn a chawsom sgwrs fel arfer am farddoniaeth. Dywedodd fod croeso i mi gael dau englyn o'i eiddo a chaniatad i'w cyhoeddi. Dyma nhw:**

Bwthyn heb fawr o bethau – a fy nef
I nain gynt a minnau:
A brwyn o gors y bryniau
Yno'n do i ni ein dau.

JOHN ROWLANDS

O ferw gwyllt i fro gain – o faswedd
I fiwsig côr plygain:
Hiraeth a ddaw i'm harwain
Fyth yn ôl i fwthyn nain.

NAIN ROWLANDS

### HEN AWRLAIS FY NAIN 1902

Hardd beiriant henafol oedd awrlais fy nain
Un syth fel y gorsen a'i ganol yn fain:
Fe safai yn wrol, mewn cornel oedd lân
I weled cywreinrwydd fy nain a'i throell wlân.

Pan grynai sylfeini y bwthyn gan wynt
Dilyna'i rhen awrlais ei orchwyl fel cynt:
Disglaeriai ei wyneb wrth oleu tân drain
A gasglwyd gan ddwylaw diwydrwydd fy nain.

Er iddo fod yno am flwyddau oedd hir
Fe gadwodd ei broffes i draethu y gwir:
Pan ddrysai awrleisiau yr ardal eu sain
Âi pawb i ymholi at awrlais fy nain.

Bodolai yr awrlais tra nain yn ei chrud
Dilynodd holl droion ei bywyd i gyd:
Mae'r awrlais hyd heddiw yn beraidd ei sain
Tra'r gweryd yn cuddio wynepryd fy nain.

Dynodai yr awrlais yn eglur o'i sedd
Mai byr ydoedd bywyd cyn symud i'r bedd,
Fe dynnai "myn anga" ei gleddyf o'i wain
I'm taro rhyw ddiwrnod 'run modd â fy nain.

RHOSGAR

### HEN HET FY NAIN 1902

A welsoch chwi het silc fy nain?
Mae'n union fel pot llaeth:
Mae'n gochach heddiw nag erioed
Ond nid yw ronyn gwaeth.
Hon oedd y "style" pan oedd fy nhaid
Yn llencyn ieuanc main,
A llawer gwaith y bu am dro
Dan gantel het fy nain.

Bu'r het a nain yn cydfwynhau
Gwendidau mwynaidd lu,
A bu y ddwy yn cyd-dristau
Uwch stormydd geirwon du.

Pe gellid rhoi rhyw dafod bach
A all'sai roddi sain
'Rwy'n siŵr y ceid hanesion gwych
Gan hen het silc fy nain.

Os bydd yr het ar dir y byw
Pan fyddaf wedi mynd,
'Rwy'n siŵr na wnewch er mwyn fy nain
Ro'i blaen-troed i'r hen ffrynd:
Ac ar ôl i mi gael fy rhoi
Mewn beddrod hir-gul main,
Yn golofn-gof uwchben fy medd
Rhowch hen het silc fy nain.

PWY?

### CICIO, CICIO, CICIO, PÊL-DROED 1902

Cicio, cicio, cicio, pêl-droed,
Dyma sydd heddiw yn d'rysu pob oed:
Ni fu y fath helynt – naddo erioed,
A chymaint o redeg ar ôl y bêl-droed.

Dyma uchelgais oruchaf y plant,
Cicio pêl ledr hyd heol a phant:
A dyma sydd heddyw yn uchaf ei glod,
Y dyn sydd yn cicio, cicio pêl-droed.

Mewn mwd at eu fferau – a'u carne yn faw,
Yn cicio pêl ledr mewn gwynt ac mewn glaw:
A miloedd edrychwyr ar feinciau o goed
Yn gwylied y ffylied yn cicio pêl-droed.

Mae'r byd wedi newid – newidiodd y rhod,
A gwron pob ardal yw ciciwr pêl-droed:
Ac wrth weled hwn yn derbyn y dreth
Mae'n byd wedi myned i gicio pob peth.

GLWYSFRYN
LERPWL

### Y PRYF SIDAN

O'i wiw wy i weu e' a, – a'i weuau
O'i wyau a weua:
E weua ei we aia',
A'i weuau yw ieuau ia.

PWY?


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


### TEYRNGED I ELFED

Pe dôi deddf i'r Eisteddfod
I fardd arni'n Frenin fod,
A rhyw un i'w goroni,
Brynhawn haf, ei brenin hi,
Rhan un fai'r goron honno, –
Hen dlws gan ei genedl o.
Ei theyrnged i Elfed âi:
Hwn yw'r gŵr a goronai.

DANIEL WYN O DDYFED

### GORSEDD Y BEIRDD

Nid ei chledd on ei gweddi –a'i harddwch
A rydd urddas arni;
Mae nodded tu mewn iddi
I'r Gymraeg rhag ei marw hi.

TÎM CEREDIGION
Eisteddfod Aberystwyth
(O'r *Genhinen*, Hydref 1951)

## "CROES A SEREN"

Myfyrio gyda Dilys Baylis, Llanberis

**Syndod oedd canfod y dydd o'r blaen fod yma, yn Llanberis pedair-ar-ddeg croes yn ein pentref. Symbol fyd-eang yw hon yn cael ei defnyddio ers 2,000 o flynyddoedd gan Gristnogion i gofio croeshoeliad Iesu o Nazareth yn y flwyddyn 33 A.D.**

Flynyddoedd lawer yn ôl cofiaf i wraig oedrannus ddweud wrthyf lawer gwaith ei bod yn gweld croes ddisglair wrth ben chwarel Dinorwig ac y credai fod rhywbeth mawr i ddigwydd yn yr ardal. Gwelsom agor yr Hydro fwyaf yn Ewrop yr wythnos hon (9:5:84) a dyfroedd glân Eryri yn cynhyrchu pŵer aruthrol.

Pan ddechreuwyd ar y gwaith cofiaf yn dda un gyda'r nos tywyll pan ddywedodd ŵyres fach wrthyf wrth weld tri golau llachar yn uchel yn yr awyr: "Drychwch Nain, mae Mair a Joseph a Iesu Grist yn yr awyr."

Ganwyd fi mewn bwthyn bach bron ar ben Dinorwig cyn i neb feddwl am droi dyfroedd Marchlyn a Pheris yn drydan, ond cofiaf yn dda fel y cerddai fy Mam a ni'r tri phlentyn (yn ystod y rhyfel byd cynta) o Ddinorwig i Gapel Coch, Llanberis yr union lwybr bron â gymerth y dyfroedd heddiw i gynhyrchu pŵer.

Ac o edrych ar yr Wyddfa heddiw, a'r godidowgrwydd rhithiol a berthyn iddi, sylweddolaf yn sydyn na allwn weld y copa ar safle'r orsaf wrth ei throed, ond wrth symud i lawr at Pen-y-llyn cawn yr olygfa harddaf o bosib ar wyneb y ddaear. Ac yn sydyn dyma feddwl am yr holl groesau yn y pentre, a thybed na welwn fawredd y symbolau hyn pella'n y byd y cuddiwn oddi wrthynt.

"Pella ddyn o droed yr Wyddfa
Cliriach, harddach yr olygfa
Pella'r groes a'r gofid trist
Nês o hyd ddaw nerthoedd Crist."

Credaf mai yn y fan yma mae esboniad i ni ar yr "ail ddyfodiad". Y groes yw'r symbol sy'n rhannu dyfodiad cyntaf y Crist ysbrydol oddi wrth yr "ail ddyfodiad" ohono. Roedd y Crist yn rhan o'r Drindod erioed, pŵerau anweledig, ysbrydol yw'r rhain. Yr oeddynt yn bod o'r dechreuad, ond Iesu a'i gwelodd gynta erioed, darganfyddwyd y Pŵerdy yma gan Iesu, a chysylltiodd ef ddyn â'r Grym aruthrol yma gan roddi sawl newidydd, peilonau gwifrau a switses etc at ein hanghenion.

A dyma'r neges sy'n dod i'r amlwg wrth droed yr Wyddfa i Gristnogion y byd heddiw – digwyddodd yn "ail ddyfodiad" yn y flwyddyn 33 Oed Crist.

Nid oes neb yn disgwyl i William Faraday ddod yn ôl yn y cnawd i esbonio'r egwyddor tu ôl i'r gwirionedd fod modd defnyddio dwfr i gynhyrchu trydan, pam disgwyl Iesu'n ôl i egluro sut mae dyfroedd byw y Drindod yn gallu cynhyrchu gallu mor aruthrol i ddatrys problemau dyn ac i'w arwain yn synhwyrol i heddwch, iechyd ac hapusrwydd.

Fe gawn fflach yma ac acw o'r gallu anweledig yma yn cynorthwyo Moses, y tri llanc, Job etc. yn yr Hen Destament ond profodd Iesu fod modd i ddynion a merched ddefnyddio'r galluoedd yma pan mewn cyfyngder.

Tybed beth yw neges y Dr Billy Graham am yr "ail ddyfodiad"? Anodd yw amgyffred gwell esboniad na'r ateb a gawn trwy edrych ar yr Wyddfa a'r "Hydro" yn Dinorwig. Y pellaf y cerddwn oddi wrth feidroldeb y mab Iesu, harddach a chadarnach y daw y Mab, Crist i'r golwg.

Hon yw neges amserol Llanberis heddiw wrth ganfod yr holl fawredd o'n cwmpas yn y croesau, yr Wyddfa, a'r "Hydro" – felly ymlaen â ni Gymry i adlewyrchu'r pŵer, gallu, a'r nerthoedd daionus sydd wrth law, ac i ddweud fod yr "ail ddyfodiad" wedi digwydd ers bron i 2,000 o flynyddoedd – dim ond codi'n golygon sydd raid i ni.!



BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

# PENISARWAUN

**Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)**

BEDYDDIO: Ar brynhawn Sul, Mai 6 yng Nghapel Bosra bedyddiwyd Nia Louise, merch fach Mr a Mrs Len Porter, 4 Bron y Waun, a chwaer fach Mark, gan y gweinidog, y Parch Erfyl Blainey. Roedd teidiau a neiniau Nia yn bresennol yn ogystal â ffrindiau teuluol. Mrs Nancy E. Jones oedd yr organyddes.

YSGOL SUL: Cafodd plant yr Ysgol Sul ganmoliaeth am eu cyfraniad yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghwm-y-glo, ac yng ngwasanaeth yr hwyr yng nghapel Ebeneser, Caernarfon ar Ebrill 29. Diolch i Mrs Ann Evans, Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a Mrs Elizabeth Jones am baratoi'r plant.

LLONGYFARCHIADAU: i Jonathan Vincent Richardson, a Dyfed Jones ar ennill medalau a thystysgrifau am gasglu at y Genhadaeth. Derbyniodd Derlwyn Jones a Kenneth Richardson dystysgrifau.

PRYDAU AR OLWYNION – Yn eisiau – gyrrwr car sydd yn fodlon helpu gyda'r gwaith o ddosbarthu'r prydau parod. Cysylltwch â Jean Roberts, 6 Bryn Eglwys.

EGLWYS Y SANTES HELEN: Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau nos Lun Ebrill 30. Cymerodd Mrs B. Mowll y gwasanaeth. Y wraig wadd oedd Mrs Helen Ireland, sydd ar wyliau yn yr hen wlad o Awstralia. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Jones a Mrs J.M. Jones, y ddwy o Lys y Gwynt. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mehefin 4 pryd y cynhelir Noson Goffi er budd Cymorth Cristnogol.

FESTRI'R PASG: Cynhaliwyd y festri flynyddol yn yr eglwys nos Lun Ebrill 9 dan gadeiryddiaeth y Ficer. Darllenwyd a derbyniwyd y mantolenni ariannol ac ailetholwyd y swyddogion i gyd am dymor arall a diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth i'r eglwys.

YN YR YSBYTY: Dymunwn wellhad buan i Mrs F. Griffiths, 5 Bryntirion, Mr Sam Parry, Cefn Coed ac i Andrew Turner, Tyddyn Difyr. Brysiwch wella.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Miss Mair Foulkes, 3 Bryn Hyfryd sydd wedi colli ei chyfnither yn Rhos on Sea, ac hefyd i Mr Arnold Jones, 1 Tai Arthur a'r teulu i gyd ar farwolaeth eu brawd ym Mhenygroes.

GWELLHAD BUAN: i Mrs Glenys Williams, Trem Cynfi sydd wedi dod adref o'r ysbyty.

LLONGYFARCHWN: Miss Gail Owen, Siop Gron ar gyrraedd ei un ar hugain oed.

DYMUNIADAU DA I: Helen ac Angus, merch a mab yng nhgyfraith Mrs Wood, Bryn Arthur sydd wedi mynd i Singapore i weithio. Bu Mr Geraint Williams, Careb adref am ychydig seibiant o Bahrain yn ddiweddar. Braf oedd ei weld yn ein plith.

Bydd trip Ysgol Sul Santes Helen yn mynd i'r Rhyl ar Orffennaf 7. Os dymuna rhywun ymuno â'r trip cysylltwch â Mrs A. Paterson, 1 Bryntirion.

YR EISTEDDFOD: Nos Wener, Mai 18 cynhaliwyd eisteddfod y pentref yng Nghapel Glasgoed. Y beirniad oedd: **Cerdd:** Mrs Ann Hocpyn, Bethel. **Llên ac Adrodd:** Mr Gwilym Hughes, Llandwrog. **Coginio a gwaith llaw:** Mrs Bronwen Jones, Rhiwlas. **Arlunio:** Mr W. Selwyn Jones, Caernarfon. **Cyfeilyddes:** Miss Eirian Gwynfydd Evans, Abersoch. Ein llywydd eleni oedd un o hen blant yr ardal sef Mrs Gweneth Owen, Bodorgan. Yr arweinyddion oedd Mrs Ann Evans a Mrs Elizabeth Jones. Estynnwyd y diolchiadau ar y diwedd gan Mr Tegid Roberts cadeirydd pwyllgor yr eisteddfod.

Wele restr o'r enillwyr:

**Canu – dan 4 oed:** 1. Elgan, 2. Dafydd, 3. Sion. **4-6:** 1. Ynyr Griffith a Sioned W. Jones, 2. Huw Tegid a Lois Dafydd, 3. Eleri Jones a William Lewis. **6-8:** 1. Jonathan Richards a Sioned Wyn, 2. Morrigan Ellis, 3. Nia Lewis. **8-10:** 1. Hefina Jones, 2. Dyfed Jones, 3. Rebecca Thomas. **10-12:** 1. Eurgain Haf, 2. Iola Williams, Bedwyr Evans. **12-15:** 1. Rhian, 2. Sioned Roberts. **Cân Werin dan 12 oed:** 1. Amanda Orrock, 2. Rebecca Thomas, 3. Eurgain Haf, dan 15: 1. Sioned Roberts, 2. Rhian. **Parti canu dan 9:** 1. Parti Hŷn yr Eglwys, 2. Waun, 3. Parti Susan a Parti Babanod yr Eglwys. **Parti Canu 9-12:** 1. Parti Glenn, 2. Parti Bethan. **Deuawd dan 15:** 1. Eurgain a Sioned. **Unawd 18-60:** 1. Julia Turner. **Unawd Pensiynwyr:** 1. Mrs Katie Williams, 2. Mrs Gwennie Lewis, 3. Mrs Percy Williams a Mrs Eluned Porter. **Parti Deulais:** 1. Eosiaid, 2. Parti'r Heulwen.

**ADRODD – Dan 4:** 1. Siân ac Elgan, 2. Pawb arall. **4-6:** 1. Lois Dafydd, 2. William Lewis, Sioned W. Jones. **6-8:** 1. Louise Jones, 2. Llŷr Tegai, 3. Morigan Ellis. **8-10:** 1. Andrea Paterson, 2. Dyfed Jones, 3. Rebecca Thomas. **10-12:** 1. Eurgain Haf, 2. Cora Jevans, 3. Iola Williams. **12-15:** 1. Sioned Williams, 2. Sioned Roberts. **15-18:** 1. Sharon Owen. **Parti Adrodd Oed Cynradd:** 1. Parti Rhian, 2. Parti Wil, 3. Parti Hefina. **Parti Adrodd Oed Uwchradd:** 1. Parti Marie, 2. Genod Ni. **Parti Adrodd Oedolion:** 1. Parti'r Heulwen, 2. Brian.

**LLENYDDIAETH:**

**Rhyddiaith 4-6:** 1. Eleri Jones, 2. Rhys Owain, 3. Lois Dafydd, 4. Huw Tegid, Sioned W. Jones, Daniel Rowlands. **6-8:** 1. Nia Lewis, 2. Owen Turner, 3. Manon Esyllt, 4. Osian Dafydd ac Elizabeth Ann. **8-10:** 1. Yvonne Orrock, 2. Sioned Lewis, 3. Stephanie Lewis. **Rhyddiaith Dysgwyr:** 1. Glenn Lamb. **Rhyddiaith 10-12:** 1. Eurgain Haf, 2. Amanda Orrock, 3. Bedwyr Evans ac Emyr Williams, 4. Cora Jeavons. **Rhyddiaith Dysgwyr 10-12:** 1. Zarah Lloyd, 2. Corinna Prescott. **Rhyddiaith 12-15:** 1. Gwenllian Parry, 2. Rhian. **Barddoniaeth 8-10:** Dyfed Jones, 2. Yvonne Orrock. **10-12:** 1. Amanda Orrock, 2. Iola Williams, Bedwyr Evans, Eurgain Haf.

Rhoddwyd Cwpan Morgan Evans am y cynnyrch gorau o blith y cystadlaethau Llenyddiaeth a Barddoniaeth i **Gwenllian Parry**.

**GWAITH LLAW: Dan 4:** 1. Tracey, 2. Dafydd, 3. Siân ac Aled. **4-6:** 1. Huw Tegid, 2. Eleri Jones, 3. Seimon Edwards. **6-8:** 1. Osian Dafydd, 2. Llion, 3. Sioned Wyn. **8-10:** 1. Hefina Jones, 2. Glenn Lamb, 3. Stephanie Jeavons. **10-12:** 1. Amanda Orrock, 2. Iola Williams, 3. Bethan Evans a Dylan Williams. **12-15:** 1. Gwenllian Parry, 2. Sioned Roberts. **15-18:** 1. Sharon Owen.

**COGINIO: Dan 13 oed:** 1. Sioned Roberts, 2. Laurence Turner, 3. Susan Williams. **13-18:** 1. Rhian, 2. Carolyn, 3. Meirwen.

**ARLUNIO: Dan 4:** 1. Iwan, 2. Siân, 3. Cathryn. **4-6:** 1. William Lewis, 2. Eira Wyn, 3. Sioned W. Jones, Angela Webb. **6-8:** 1. Osian Dafydd, 2. Jonathan Richard a Nia Lewis, 3. Sioned Wyn. **8-10:** 1. Glenn Lamb, 2. Stephanie Jeavons, 3. Yvonne Orrock. **10-12:** 1. Eurgain Haf, 2. Steven Wroe, 3. Bedwyr Evans. **12-15:** 12-15: (cydradd) Sioned Williams, Marie Griffith, Sioned Roberts. **15-18:** 1. Dylan Williams, 2. Fiona Lloyd Jones, 3. Meirwen Williams a Carolyn Jones.

Dymuna pwyllgor yr eisteddfod ddiolch i swyddogion Capel Glasgoed am gael cynnal yr eisteddfod yn y capel, ac i Mr Dereck Roberts, Fferm Glasgoed am gael defnyddio'r cae fel maes parcio. Hoffem ddiolch hefyd i drigolion y pentref am eu cyfraniadau hael a'u cefnogaeth i'r eisteddfod.

Dymuna **Cadeirydd y Pwyllgor** ddiolch yn fawr hefyd i aelodau'r pwyllgor am eu llafur a'u cefnogaeth wrth drefnu a chynnal yr eisteddfod.

## DRAENOG



**Glywsoch chi am y Gogyddes Ysgol a'r Actor enwog a fu'n ymarfer deuawd 'Pistyll y Llan' wrth ochr Capel Glasgoed? (Gydag effeithiau sŵn) Cofiwch yr hen ddihareb! "O'r pants y rhed y dŵr!"**

## O EISTEDDFOD PENISARWAUN



*Parti canu buddugol dan 9 oed — Parti Hŷn yr Eglwys.*



*Parti canu buddugol 9-12 oed — Parti Glenn.*



*Parti Adrodd oed Cynradd — Buddugwyr — Parti Rhian (roedd Rebecca Thomas yn absennol)*



*Parti Adrodd buddugol — oed uwchradd — Parti Mari (roedd Elaine Lewis yn absennol)*

*Gwenllian Parry, Prif Lenor yr Eisteddfod.*



# DEINIOLEN

**Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen. (Ffôn: Llanberis 871259).**

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn Ninorwig nos Fercher, Mai 2. Cafwyd adroddiad o gynhadledd merched y Blaid gan Mrs Jina Keller. Aethpwyd ati i wneud trefniadau ar gyfer y noson Cawl a Chân sydd i'w chynnal yng Nghanolfan Dinorwig ar Fehefin 20.

Enillwyr Clwb 100 mis Ebrill oedd: £10, Rhif 49, Miss Pat Williams, Rhydfadog; £8.50, rhif 88, Mr Owen Glyn Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont.

SWYDD NEWYDD: Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Parry, B.A., Bro Dawel, ar gael ei benodi'n Bennaeth Addysg Grefyddol Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Bydd Mr Parry'n dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi.

DIOLCH: Dymuna Edwina W. Jones, Deiniol House, Stryd Fawr ddiolch i'w theulu, perthnasau a'i holl ffrindiau am yr anrhegion a'r holl gardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 ar Fai 5ed.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Ar nos Iau, Mai 3 cynhaliwyd cyfarfod Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys Disgwylfa (MC). Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Miriam Lewis a chroesawyd pawb yno.

Anfonwyd cofion cynnes at y chwiorydd dilynol, sef Mrs J. Williams, Caradog Place, sydd erbyn hyn adref o Ysbyty Môn ac Arfon, Mrs Idwen Thomas adref o Ysbyty Eryri, wedi cael triniaeth lawfeddygol, a Mrs Enid Williams, Vaynol Terrace, hithau hefyd wedi cael triniaeth lawfeddygol. Anfonwyd cofion hefyd at Mrs Muriel Evans a Mrs J. Hughes, Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont.

Estynnwyd dymuniadau da i'r 'Winllan' a agorwyd yn ystod gwyliau'r Pasg a dymunir pob llwyddiant i'r fenter newydd hon.

Cafwyd anerchiad rymus iawn gan Mrs Delyth Thomas ar y pwnc 'Y Trydydd Byd' lle y datgelodd i ni ffeithiau difrifol am gyflwr y bobl hyn, eu bywoliaeth, eu tlodi a sut y medrwn ni gyfrannu at wella eu cyflwr. Diolchwyd i Delyth am ei chyfraniad, ac yna cafwyd arwerthiant o 'Moes a Phryn' a gwnaed elw da. Ar ôl y gweithgareddau cafwyd paned o de a chacen flasus, a diolchwyd i Mrs Dilys Pritchard am roddi'r te. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Fehefin 7.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 14 pryd y llywyddwyd gan y llywydd. Darllenodd y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Y wraig wadd oedd Mrs Maud Williams, Caernarfon (VCO). Croesawyd Mrs Williams gan y llywydd a thrafodwyd y penderfyniadau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Llundain ar Fehefin 7.

Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs Rita Jones, Y Becws, y llywydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, 2 Y Bwthyn.

Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Lloyd Jones, 5 Cynfi Terrace a Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 4 pryd y bydd Mrs Edwards, Fferyllydd o Fangor yn sôn am bersawr.

ENILLWYR CLWB 200: Mis Mai – 1. Rhif 119, £25, Mrs D. Davies, Swyddfa'r Post, 2. Rhif 37, £15, J. Joanidi, Clwt-y-bont, 3. Rhif 146, £5, Mrs R. Jones, Y Becws.

NEWYDDION Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i Mr Meurig Parry ar gael ei benodi'n arweinydd newydd y Seindorf.

Mae Mr Parry yn enedigol o Lanrug ond mae'n aelod o'r Seindorf ers rhai blynyddoedd bellach. Pob lwc iddo ef a'i Seindorf yn y dyfodol.

Pnawn Sadwrn Mai 26 yr oedd y Seindorf yn gwasanaethu mewn cyngerdd a gwasanaeth yng Nghricieth pryd y lansiwyd Bâd Achub newydd.

CYFLWYNO: Pnawn dydd Llun, Mai 14, cyflwynodd plant Ysgol Sul, Eglwys Crist, Llandinorwig set deledu lliw a cheffyl siglo hardd i ward y plant, Ysbyty Gwynedd. Cafwyd yr arian trwy ganu carolau yn ystod y Nadolig a bore coffi, roedd yr elw bron yn £300.

Ar ôl y cyflwyno, cafwyd lluniaeth ysgafn, ac yna cafodd y plant ymweld â'r adran, ac eglurwyd iddynt bwrpas y gwahanol ystafelloedd. Mwynhawyd yr ymweliad a dymuna'r Ysgol Sul ddiolch i bentref ac ardal Deiniolen am eu cefnogaeth a wnaeth hyn yn bosib.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna Mrs Ceridwen Thomas ddiolch yn gynnes iawn am y llu cardiau blodau ac anrhegion tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

CLWB ELIDIR: Mis Mehefin dydd Mawrth 12 a dydd Mawrth 26.

Cynhaliwyd yr uchod ddydd Mawrth Mai 1 dan lywyddiaeth Mrs C. Marren. Treuliwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Alice Griffith, Dinorwig yn dweud am ystyr y gwahanol gyfenwau. Rhoddwyd y te gan Mrs Annie Morris, Tai Marian; Mrs Idwen Thomas, Tai Caradog; Mrs Kate Ellen Davies, Glyn Terrace a Mrs Woodcocks, Maes Gwylfa. Enillwyd y raffl gan Mrs Ethel May Roberts, rhoddedig gan Mrs Woodcocks.

Cynhaliwyd cyfarfod yn y Clinic ddydd Mawrth, Mai 15. Yn absenoldeb y Llywydd, arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Megan Morris. Rhoddwyd y te gan Mrs Ellen Williams, 2 Bwthyn a Mrs Mary Jones, 4 Bwthyn. Anfonwyd cofion at amryw o'r aelodau sydd yn wael. Estynnwyd croeso yn ôl i Mrs Idwen Thomas, Yrfa, Tai Caradog ar ôl bod yn yr ysbyty. Pasiwyd cydymdeimlad a Mrs Ethel May Roberts ar golli ei chwaer yng nghyfraith. Cafwyd cwis dan ofal Mrs Miriam Lewis. Aelodau'r panel oedd: Mrs Nancy Rowlands, Mrs Jane Eilrys Williams, Mrs Betty Wyn Davies a Miss Kathleen Jones. Enillwyr y raffl rhoddedig gan Mrs Ellen Williams gan Mrs Kate Ellen Davies. Diolchwyd i Mr a Mrs Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol am eu rhodd i'r clwb. Bydd trip Clwb Elidir ddydd Iau Gorffennaf 19. Ceir cinio yng Nghricieth ac yna ymlaen i Fae Colwyn. Ceir mwy o fanylion ymhellach ymlaen.

## CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa am y tro cyntaf yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris, pnawn a nos Sul, Mai 6ed, 1984, a chafwyd diwrnod i'w gofio yno. Diolch i aelodau Rehoboth am eu gwaith i wneud y diwrnod yn llwyddiant.

Arweinydd y gân oedd Mr John Jones, Deiniolen, a'r organyddion oedd Mrs J.W. Jones, Rehoboth a Mr H. Peris Pritchard, Capel Coch. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau gan Annette, Olwen a Marian, Dinorwig.

Dyma'r canlyniadau:

**Arholiad Llafar dan 4 oed:** 1. Dafydd Jones, Bethan Williams, Lowri Williams, Dewi Lloyd Griffith, Dyfan Elis, Gareth Jones, Gerallt Dion Hughes ac Elen Salisbury, Cysegr. Iola Davies a Rhian Wyn Davies, Brynrefail, Michael Dwain Thomas a Bethan Williams, Disgwylfa ac Alaw Mari Hughes, Cefnywaun. **Dan 5 oed:** 1. Beverly Roberts, Rehoboth, Iwan Harding, Capel Coch. Carwyn John Morris ac Owain Arfon Jones, Cysegr, Arfon Jones, Tania Marie Thomas a Shion Charles Thomas, Disgwylfa. 2. Kelvin Owen, Cysegr. 3. Lliwen Hughes a Llinos Hughes, Capel Coch a Julie Ann Roberts, Cysegr. **Dan 6 oed:** 1. Manon Williams, Capel Coch, Richard Peters, Catrin Hughes a Gwenan Elis, Cysegr. Gareth Davies, Brynrefail. **Dan 7 oed:** 1. Llinos Angharad Morris, Llinos Ann Roberts, Sonia Lynne Roberts a Sam David Williams, Cysegr. Dafydd Williams, Brynrefail, Gavin Saynor, Disgwylfa. 2. Rhian Thomas, Capel Coch. **Dan 8 oed:** Eilir Williams, Cefnygwaun. 2. Jacinta Kisalu, Capel Coch, Nicola Houston, Marian Lloyd Jones ac Owain Gwyn, Brynrefail, Menna D. Williams a Julie Ann Jones, Cysegr. 3. Leah Milli can, Cysegr a Katrin Keller, Disgwylfa. 4. Barry John Thomas, Disgwylfa. **Dan 9 oed:** 1. Bethan Jones, Esyllt Môn Jones a Sioned Owen, Cysegr. 2. Manon Elis a Ruth Wyn Parry, Cysegr, Gwawr Pierce Williams, Cefnywaun. 3. Aled Lloyd Griffith, Cysegr. 4. Nia Wyn Saynor, Disgwylfa. **Dan 10 oed:** 1. Eira Wyn Evans, Brynrefail, Ian Roberts, Cysegr, Vera Jean Williams a June Marie Williams, Cefnywaun. 2. Mared Wyn Sutherland, Cefnywaun. 3. Glenda Jones, Capel Coch, Ceryl Roberts, Cysegr. 4. Ian Jones, Cysegr. 5. Alan Pritchard, Rehoboth, Mandy Williams, Cysegr, Amelia Rowena Jones, Cefnywaun. 6. Melisa Ann Jones, Cefnywaun.

**Cydadrodd dan 9 oed:** 1. Parti Llinos, Parti Aled a Pharti Arfon, Cysegr. **Cydradd dan 11 oed:** 1. Parti Gerallt, Cysegr. **Dan 11 oed:** 1. Catrin Gwyn, Brynrefail, Rhian Hughes, Kelvin Roberts a Gwen Jones, Cysegr, Dylan Wyn Williams, Cefnywaun. 2. Iestyn Roberts, Rehoboth. 3. Maria Evans, Brynrefail a Joyce Williams, Cefnywaun. 4. Einir Thomas, Capel Coch, 5. Paula Walters, Brynrefail, 6. Gerallt Jones, Cysegr. **Dan 12 oed:** 1. Elwyn Hope Parry, Eirlys Jones, Carys Owen, Angharad Elis, Cysegr, Aled Jones, Cysegr. **Dan 13 oed:** 1. Meinir D. Williams, Cysegr a Caron Jones, Brynrefail. 2. Glenda Walters, Brynrefail. 3. Arwyn Roberts, Rehoboth ac Einir Gwyn, Brynrefail. 4. Joan Evans, Brynrefail, 5. Nerys Williams, Brynrefail. **Dan 14 oed:** 1. Alwen Jones, Brynrefail, 2. Jacqueline Walters, Brynrefail a Sharon Roberts, Rehoboth. **Dan 20 oed:** 1. Olwen Bryn Roberts, Dinorwig. **Dan 50 oed:** 1. Mrs Dianne Roberts, Mrs Nora Parry, Myfanwy Jones, Cysegr. Annette Bryn Roberts a Marian Wyn Jones, Dinorwig. Mrs Helen Wyn Jones, Disgwylfa. **Dros 50 oed:** 1. Mrs Betty Roberts a Mrs Katie Hughes, Dinorwig a Mrs Elsie Davies, Disgwylfa.

**Arholiad Ysgrifenedig: Dan 9 oed:** 1. Menna D. Williams, Cysegr. 2. Ruth Wyn Parry ac Aled Lloyd Griffith, Cysegr. 3. Nia Lynne Saynor, Disgwylfa ac Eilir Wyn Williams, Cefnywaun. 4. Gwawr Pierce Williams, Cefnywaun a Catrin Keller a Gavin Saynor, Disgwylfa. **Dan 11 oed:** 1. Dylan Wyn Williams, Cefnywaun, 2. Hanah Ruskin, Glenda Jones, Capel Coch a Mared Wyn Sutherland, Cefnywaun. 3. Maria Evans a Catrin Gwyn, Brynrefail. 4. Iestyn Roberts, Rehoboth, June Marie Williams ac Iwan Griffith Williams, Cefnywaun, Kelvin Roberts ac Ian Roberts, Cysegr ac Einir Thomas, Capel Coch. 5. Vera Jean Williams, Cefnywaun, Alan Wyn Pritchard, Rehoboth, Eira Wyn Evans, Brynrefail, Christine Pitts, Capel Coch, Paula Walters, Brynrefail, 6. Amelia Jones, Melisa Owen, Cefnywaun a Dianne Roberts Disgwylfa. **Dan 14 oed:** 1. Catrin Lloyd Roberts, Capel Coch, 2. Nia Gwyn Griffiths, Capel Coch a Siân Elen Pritchard, Rehoboth, Siân Gwyn Griffiths, Capel Coch. 3. Helen Mai Pritchard a Sharon Roberts, Rehoboth.

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud y Gymanfa yn llwyddiant. Diolch i ferched Rehoboth am y te bendigedig. Diolch yn fawr i bawb am ein cefnogi.


DEINIOLEN
CABS
Gwasanaeth 24 awr – unrhyw bellter
Eich rhedeg i'r Maes Awyr neu'r Porthladd
Bws Mini 12 Sedd
Ffôn: Llanberis 871591
J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL



I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...
Osmond W. Shaw
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore


## Y WINLLAN

**Achlysur arbennig yn Neiniolen Llun y Pasg sef agor caffi newydd 'Y Winllan'**

**Ni cheir yma wîn na chwrw**
**Doeth yw hynny rhag creu twrw**
**Ond cewch goffi, te a Cola**
**A scons, teisenni gyda'r gora**
**Os oes gennych eich hoff ddewis**
**Cofiwch ofyn i Musus Lewis**
**Diolch wnawn i'r gwir Barchedig**
**Ac i bawb sy'n gysylltiedig**
**Am ddarparu man mor hwylus**
**I gael sgwrs ac aros bysus**
**Llwyddiant fo ar ei hymdrechion**
**A chefnogwn hwy yn gyson**
**Trwy fynychu y 'Wir Winllan'**
**A'n diwella tufewn ac allan.**

# CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor dan lywyddiaeth y Cadeirydd S.N. Hughes, yn Angorfa nos Iau Mai 24.

**Llwybrau Cyhoeddus:** Cafwyd adroddiad gan Mr Ken Jones o'r gyfarfyddiad â Swyddogion y Cyngor Sir. Eglurwyd y byddai'r llwybr ym mhen Stryd Ceunant a'r llwybr o Stryd Warden i'r Ffordd Fawr, yn cael ei hailagor yn y dyfodol agos a bod gwaith i'w wneud ar y llwybr o Afon Goch ar draws caeau Bron Eryri.

**Y Lanfa:** eglurodd y Clarc fod Mr John Williams am gario ymlaen gyda'i waith o gadw'r Lanfa'n lân, fel y gwnaeth mor ardderchog yn ystod Haf 1983.

Rhoddwyd caniatad i'r ras nofio, ras hwyl-fordio a ras canw ddefnyddio'r safle yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Mae'r Cynghorydd Francis Jones wedi gwneud trefniadau, ar ôl misoedd o drafod, i gael gorffen cadarnhau'r traeth. Bydd y gwaith yma yn sicr o fod o fudd i'r pentref.

**Cynllunio:** Nid oedd gwrthwynebiad i gais i drwsio a newid Tŷ Ucha'r Ffordd.

**Glanhau Strydoedd:** Rhoddwyd adroddiad fod gŵr nawr yn glanhau'r Stryd Fawr ar bum bore o'r wythnos, ond nad oedd Cyngor Arfon mewn sefyllfa i gyflogi'r gweithiwr ar fore Sadwrn a Sul.

Pasiwyd i roi cymorth ariannol i Gyngor Arfon i sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud dros y penwythnos. Yn sicr mae'r pentref yn edrych yn llawer glanach, ac mae'r Cyngor am anfon i ddatgan diolch am y gwasanaeth y bu hir ddisgwyl amdano.

Gyda chyfraniad ariannol y Cyngor bydd Nant Peris nawr yn cael rhagor o sylw, a strydoedd cefn Llanberis yn eu tro.

**Ffotograffi:** Derbyniodd y Cadeirydd wahoddiad i agor arddangosfa Cymdeithas Ffotograffi Gogledd Cymru yn Oriel Eryri ddydd Sul, Mehefin 10.

**Colli lamp:** Derbyniwyd llythyr yn cwyno fod lamp ym mhen Fron Goch wedi ei symud. Pasiwyd i anfon at y Cyngor Sir i ofyn am gael y lamp yn ôl yn ei safle gwreiddiol neu eu bod yn gosod lamp ychwanegol.

**Anfon Cwynion Ymlaen:**

1. Clirio ffos ger Olgra Terrace.
2. Cyflwr y pafin ger Dolbadarn.
3. Cyflwr ambell sedd yn y plwyf.
4. Cyflwr y gadair ger Capel Nant Peris.
5. Tai gwag Stryd Goodman.

**Cystadleuaeth Gerddi Tai Cyngor:** Bydd beirniad yn dod o amgylch y plwyfi yn ystod yr wythnosau olaf yng Ngorffennaf.

## BETWS GARMON

GWELLAHAD: Gan nad yw Miss Sarah Roberts, Bryn Rhyd wedi bod yn dda am beth amser bellach dymunir llwyr adferiad iechyd iddi.

PROFEDIGAETH: Yn ystod y mis bu farw Mr Huw Jones, Tyddyn Bach gynt, (Dinas, Tregarth). Cydymdeimlir â'r teulu.

Hefyd yn 96 mlwydd oed bu farw Mrs Annie Jones yn America. Ymfudodd o Plas Isa rhai blynyddoedd yn ôl.

# HOGIA SIED AWSTRALIA TUA 1927



*Diolch i Aled Rowlands, Plas Maesincla, Caernarfon, gynt o Ty'n Pwll, Bethel, am gael benthyg y llun. Mae un o'r llythyrwyr yn y rhifyn hwn yn cyfeirio at sied Awstralia.*


**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**


## ORIEL ERYRI

Llanberis, Ffôn 870636

Llun-Sadwrn 10.00-1700Sul 13.30-1700 Tan y 30ain o Fedi

**Pedair-ar-ddeg o arddangosfeydd yn cynnwys:**
**Darluniau o Lanberis a'r cylch gan Jane Carpanini**
**Hen glociau mawr Llanrwst**
**Lluniau byw o'r gofod**
**Storïau gyda sleidiau yn y theatr glyweledol**


# TRI ŴY CALEB



*Er gwaetha ei enw gwrywaidd llwyddodd Caleb, crwban Anwen a Cenwyn Jones, 4 Tai Minffordd, Llanrug i ddodwy tri ŵy yn ystod yr wythnosau braf a gawsom yn ddiweddar. Anwen welodd yr ŵy cyntaf ym mocs Caleb yn y tŷ. Cafodd y ddau arall eu dodwy ar lawnt yr ardd.*

*Roedd Caleb yn hollol barod i arddangos yr wyau i ffotograffydd yr 'Ecò' — a chwarae teg iddo, mi arhosodd reit llonydd i gael tynnu ei lun!*

# YSGOL UNDYDD Y W.E.A.

Ar ddydd Sadwrn Mai 19 cynhaliwyd cynhadledd undydd ym Mhlas Tan-y-bwlch gan gangen cylch Caernarfon a changen cylch Lleu o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr.

Roedd yn ddiwrnod heulog braf a daeth nifer sylweddol ynghyd.

Dangoswyd sleidiau yn ymwneud â byd natur yn y dyffryn arbennig roeddem ynddi gan Mr Ted Breeze Jones. Gwelwyd sleidiau cofiadwy a roedd Mr Breeze Jones yn ychwanegu at y cyfan gyda'i sylwadau difyr.

Ar ôl lluniaeth blasus aeth Mr Breeze Jones a'r cynadleddwyr am dro i'r coed o amgylch y Plas. Tynnodd ein sylw at gân gwahanol adar ac at blanhigion neilltuol.

Yng nghyfarfod y prynhawn darllenodd y Dr Gwyn Thomas ddetholiad o'i farddoniaeth ar y thema 'Creadur a Lle'. Cafwyd golwg newydd ar anifeiliaid cyfarwydd ac anghyfarwydd o'r gath i'r crocodeil yn ogystal â darllen o fywyd y bardd yn blentyn yn ardal y Blaenau.

Diolchwyd yn gynnes i'r ddau ŵr gwadd gan Mr Trefor Jones o Gyngor Cylch Caernarfon.

Aeth pawb adref wedi mwynhau diwrnod ardderchog ym Mhlas Tan-y-bwlch a'r teimlad oedd y dylid cynnal diwrnod arbennig eto yn fuan.

## TLWS ECO'R WYDDFA CYSTADLEUAETH BÊL-DROED 6-bob-ochr

Nos Fercher, Gorffennaf 4 5.30

Cae Pêl-droed Ysgol Gynradd Llanrug

Mae'r gystadleuaeth yn gyfyngedig i blant ysgolion cynradd Bro'r Eco.

Gellir anfon **dau** dîm o'r un pentref

Os am gystadlu cysyllter ag Edward Elias, Gwen-y-wawr, Llanrug (Ffôn 3719)

## CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am gymorth daliadau o'r Gronfa uchod. Cynigir cymorth mewn cylch eang o weithgareddau, a cheir yr amodau a'r manylion, ynghyd â ffurflenni cais, gan yr ysgrifennydd: **ALED OWEN, 13 CHARLOTTE ST, LLANBERIS**

Bydd yn ofynnol i'r ceisiadau ddod i law erbyn AWST 31, 1984

# H LLANBERIS

**T. PRITCHARD & SONS**
Dinorwig House & Birmingham House
LLANBERIS
All kinds of IRONMONGERY, CHINA & GLASS
Useful Presents Practical Checks Taken
Phone 206

## PROGRAMME

for JULY, 1957

**CONCERT HALL CINEMA**
LLANBERIS — Tel. 340

EACH EVENING at 7-0 p.m.
SATURDAY at 5-30 and 8-0 p.m.

PRICES : 1/9 and 1/3

AFTER THE PICTURES —— Don't forget your FISH & CHIPS from
**THE BELMONT SUPPER BAR**
(J. G. Wilson and W. T. Jones)
HIGH STREET, LLANBERIS
Open Nightly except Friday and Mid Day Friday.
For the Best Quality Fish and Chips.

*chod: rhestr o'r ffilmiau am fis Gorffennaf.*
*rs Enid Owen, Llwyn Du, 19 Lôn Tŷ Du,*

ES, M.P.S.
HEMIST
E, LLANBERIS
MEDICINES, WINES
RVICE DISPENSING

KODAK, ILFORD FILMS
CAMERAS
CINE AND COLOUR FILMS
Telephone 264

. For 2 Days
itzi Gaynor in
GOES Ⓤ

For 2 Days
Yolande Donlan
HANG ME Ⓐ

For 2 Days
aul Douglas in
CADILLAC Ⓤ

. For 2 Days
in McCarthy in
ARE Ⓐ

For 2 Days
san Stephen in
OR WORSE Ⓤ

Monday, July 22nd. For 2 Days
William Holden and Deborah Kerr in
THE PROUD AND PROFANE Ⓐ

Wednesday, July 24th. For 2 Days
Sterling Hayden and Coleen Gray in
THE KILLING Ⓐ

Friday, July 26th. For 2 Days
Anthony Steel and Laurence Harvey
STORM OVER THE NILE Ⓤ

Monday, July 29th. For 2 Days
Phyllis Calvert and Guy Rolfe in
IT'S NEVER TOO LATE Ⓤ

Wednesday, July 31st. For 2 Days
Spencer Tracy and Robert Wagner in
THE MOUNTAIN Ⓤ

CHOCOLATES & CIGARETTES, FROM
WEN
SHOP GONGOL)
RIS

Booking and Enquiry Office for
CROSVILLE MOTOR SERVICE
Telephone 354



*Llun a rhestr prisiau Gwesty Preifat Glan Eilian, Llanberis — y drws nesaf i Padarn Stores. Sylwch ar yr holl feiciau ar y lôn. Prysur iawn! Oes rhywun ag atgofion am y Gwesty hwn?*

# YSGOL DOLBADARN LLANBERIS



*Uchod: Dosbarth yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, — dim dyddiad. Pwy a ŵyr?*
*Isod: Dosbarth coginio'r Ysgol yn 1930. Dyma rai o'r enwau:*
*Rhes gefn: (chwith i'r dde) Mrs Hughes, Mair Rowlands, Menai Jones, Avril Ogwen, Gracie Hughes, Nicola ?, Gwen Floss, Susie ?*
*rhes ganol: (chwith i'r dde) Olwen Parry, Dilys Tŷ Capel, Nansi Thomas, Dilys ?, Nellie ?, Nesta ?, Nancy ?*
*Rhes flaen: (chwith i'r dde) Annie Jones, Jennie ?, Madge Tan Cefn, Annie Mary Plisman, Manon Tŷ Coed, Mair Roberts, Clara ?*
*Diolch i Mrs Annie Jones, 7 Dôl Eilian, Llanberis am y lluniau.*








**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**

**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

**Ar agor 9.30 am - 9.30 pm**

*Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis*

# M. ROWLANDS
**MONUMENTAL MASONS**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2898**
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

GWELLHAD BUAN: Anfonwn ein dymuniadau da am wellhad buan i Mrs Catherine Owen, Penrhyn Bach a Mr Robert Pritchard, Gwynfa sydd yn yr ysbyty.

Y GENHADAETH DRAMOR: Yng nghymanfa'r Eglwys Fethodistaidd Cylchdaith Arfon a gynhaliwyd yn Ebenezer Caernarfon ar Sul Ebrill 29 gwobrwywyd Dylan Williams a David Cullen o Eglwys Hermon Llanrug gyda thystysgrif a bar y Tŷ Cenhadol am gasglu y swm o £18.85 a £12.30 at y Genhadaeth Dramor.

Gyda mawr ddiolch iddynt.

MERCHED Y WAWR: Bu cyfarfod misol y gangen ar Mai 8 dan lywyddiaeth Mrs Ann Llwyd. Hysbyswyd yr aelodau fod 'Miri Mai' i'w gynnal ar Mai 18 yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ac nid yn y Coleg Normal fel y nodwyd eisoes.

Datganwyd cydymdeimlad â'r aelodau oedd wedi cael profedigaeth – Mrs Rosa Thomas a Mrs Megan Roberts ar golli priod a thad, hefyd Mrs Menna Williams ar golli ei mam.

Cawsom arddangosfa goginio gan Mrs Antoinette Hughes, darlithydd yng Ngholeg Glynllifon. Bu'n ddiwyd yn paratoi bob math o saladau oedd yn wledd i'r llygad ac yn tynnu dŵr o ddannedd pawb. Diolchwyd iddi gan Mrs Gillian Morris. Trefnwyd i rafflo'r saladau a'r enillwyr lwcus oedd: Mrs G.M. Jones, Miss Ann Humphreys, Miss Ann Griffith, Mrs Jennie Williams, Mrs Gwenda Roberts, Miss Ann Evans, Mrs Eryl Roberts, Mrs Margaret Jones, Mrs Jean Davies, Mrs M. Evans a Mrs Valmai Bernard.

Chwiorydd y te oedd Mrs Ifanwy Jones, Mrs Heulwen Evans, Miss Ann Humphreys a Mrs Mair Huws. Diolchwyd iddynt gan Mrs Buddug Jones.

Sylwer y bydd y Daith Ddirgel ar nos Fawrth, Mehefin 5 fel y nodwyd o'r blaen.

CROESO ADREF: i Mr R.D. Williams, Y Berllan a fu'n Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Da clywed ei fod yn gwella'n dda.

DIOLCH: Dymuna Mr John Pritchard, Pensarn a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli gwraig a mam annwyl.

YSGOL SUL PONTRHYTHALLT: Bu'r plant canlynol o Eglwys Pontrhythallt yn llwyddiannus yn Arholiadau'r Ysgol Sul: Ieuan a Iolo Griffith, Rhodri a Gwion ap Llwyd, Iwan Llŷr, Judith a Delyth Jones, Dyfed a Catrin Thomas, Catherine Williams a Kevin Davies.

Yn adran yr oedolion gwobrwywyd Mrs Nesta Pritchard, Mrs Enid Wh. Thomas a Mrs M.Ll. Williams.

GWELLHAD BUAN: Bu Mr a Mrs Meurig Jones, 29 Bro Rhyddallt yn cwyno'n ddiweddar. Bu'r ddau yn yr ysbyty am gyfnod byr, da deall eu bod erbyn hyn adref ac yn gwella'n foddhaol.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt pnawn Iau, Mai 17. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair a chymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs K. Griffith, Fron Hyfryd. Cafwyd sgwrs gan Mrs M.Ll. Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Ena Jones, Bod Ifor a Miss Eirlys W. Jones, Hedsor Villa. Pasiwyd i anfon casgliad y prynhawn tuag at y Cymorth Cristnogol. Diolchwyd i bawb gan y llywydd.

PROFEDIGAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gallt-y-sil ar nos Sul Ebrill 29 bu farw Mr T.W. Thomas, Berwyn, Llanrug yn 80 mlwydd oed. Cynhaliwyd gwasanaeth yng nghapel y Bryngwyn, lle bu'n ddiacon am dros 40 mlynedd, ar Mai 2. Gwasanaethwyd gan y Parch W.O. Roberts, Llanrug, a'r Parch D. Gwynfor Williams, Llanberis, ac yr oedd nifer o weinidogion eraill yn bresennol. Yn dilyn, cynhaliwyd gwasanaeth preifat i'r teulu yn yr Amlosgfa, Bangor. Cydymdeimlir â'i weddw, Mrs M.R. Thomas, a'r ddwy ferch, Mrs Eira Wyn Hughes, Preston; Mrs Megan Roberts, Gregynog, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna teulu'r diweddar Mr T.W. Thomas, Berwyn ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig am y llu cardiau a llythyrau, rhy niferus i'w hateb.

PROFEDIGAETH: A hwythau ond megis dechrau dygymod â'r golled ar ôl marwolaeth eu mam tua mis yn ôl, daeth profedigaeth arall i ran plant Pensarn pan fu farw eu tad, John Pritchard – yn Ysbyty Môn ac Arfon ar Mai 23. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r plant a'u teuluoedd.

NOSON GOFFI: Nos Iau, Mai 24 cynhaliodd Côr Adrodd Capel Mawr noson goffi yn yr Ysgol Gynradd. Gwnaed elw o £121 at gronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

Dymuna Cwmni Drama Llanberis ddiolch yn ddiffuant i bobl Llanrug a'r cylch am eu cefnogaeth. Ar Fawrth 15 cyflwynwyd siec o £85 i'r gronfa gan Glwb Blodau'r Grug.

## GWERTHFAWROGIAD



*Mr Owen a phlant yr Ysgol Sul o'i gwmpas.*

CYDNABOD GWASANAETH: Cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn Festri Pontrhythallt nos Iau, Mai 24 i gyflwyno rhodd o Feibl i Mr D. Glynne Owen, Llys Eryri, fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth i'r Eglwys am nifer o flynyddoedd ac ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch John Morris a chymerwyd y rhan arweiniol gan Mr Emrys Owen. Yna cyflwynwyd y Beibl i Mr Owen gan y Parch W.O. Roberts, cyn-weinidog yr eglwys. Siaradwyd ymhellach gan nifer o frodyr a chwiorydd, yn datgan eu gwerthfawrogiad o'i wasanaeth.

Cafodd y plant gyfle i roi cyfraniad trwy ganu ac ar eu rhan diolchodd Catrin Thomas am ei garedigrwydd tuag atynt yn yr Ysgol Sul.

Cafwyd cân ymhellach gan chwiorydd yr Eglwys yna paned trwy garedigrwydd Mrs M. Lloyd Williams. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at y noson gan Mrs Megan Williams.

## TEYRNGED I'R DIWEDDAR THOMAS WILLIAM THOMAS

Colled ddirfawr i ardal Llanrug, ac i gylch llawer ehangach ydoedd marwolaeth Mr T.W. Thomas, Berwyn, Llanrug yn Ysbyty Gallt y Sil ddydd Sul Ebrill 29 yn 80 oed. Yr oedd yn enedigol o'r ardal ac yma y treuliodd y rhan helaethaf o'i oes yn llawn sêl tros y pethau gorau, a chariad tuag at ei fro a'i thrigolion. Yr oedd gan bawb air da iddo fel Cristion, cymwynaswr a chyfaill cywir. Byddai ganddo yntau air da i bawb yn ddiwahaniaeth. Yn wir ni chlywais T.W. Thomas yn dweud dim oedd yn wael am neb. Gellir ei ddisgrifio'n gywir iawn yn y geiriau a ddefnyddiodd y Prifardd Waldo Williams wrth ddisgrifio ei rieni yn 'Y Tangnefeddwyr'

**Ni châi enllib, ni châi llaid**
**Rhoddi troed o fewn eu tre,**
**Chwiliai mam am air o blaid**
**Pechaduriaid mwya'r lle.**

Perthynai iddo natur hynod o garedig, a derbyniodd llawer iawn o drigolion ardal Llanrug yn helaeth o'i haelioni a'i gymwynasgarwch. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yng ngwasanaeth y Royal Liverpool Friendly Society, a daeth yn reolwr swyddfa i gymdeithas ym Mangor. Yn ei waith beunyddiol cafodd gyfle beunydd i weld pobl mewn cyfyngderau o bob math a manteisiodd ar bob cyfle i helpu'r anghennus. Yr oedd yn uchel ei barch gan y cwmni a'i gyflogai gan ei fod yn unplyg a gonest ym mhob peth.

Yr oedd gan T.W.T. feddwl y byd o Eglwys y Bryngwyn lle bu'n aelod ar hyd ei oes ac yn ddiacon teilwng a gweithgar am dros 40 mlynedd.

Un o'r pethau pwysicaf yn ei fywyd ar hyd y blynyddoedd oedd ymdrechu i gadw drws Capel y Bryngwyn yn agoed, a gwnaeth hynny hyd eithaf ei allu. Er cymaint oedd ei sêl tros yr Achos yn y Bryngwyn, cefnogodd a'i holl galon weithgarwch pob eglwys arall yn yr ardal, ac yr oedd ei ffyddlondeb i Gysegr Eglwysi Llanrug bob amser

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


GWASANAETH
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
**Linda**
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch
CAERNARFON 3674
i drefnu amser



**NORMAN JONES**
**4 Tai Disgwylfa**
**LLANRUG**
**Ffôn: CAERNARFON 3476**
**GLANHAWR FFENESTRI**
*Siopau * Tai *
*Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio – tu fewn a thu allan

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU
neu unrhyw fath o gynnyrch coed
ffoniwch
**BRYN**
**LLANBERIS 870793**
**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**

***Wavell Roberts***
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

**TEYRNGED T.W. THOMAS (parhad)**
yn fawr iawn.

wnodwedd amlwg arall a berthynai iddo oedd ei ddiwylliant. Yr oedd yn Gymro gwir ddiwylliedig. Ef oedd un o syflaenwyr Clwb Eryri ac ymfalchïai yn fawr yn hyn. Cefnogai hefyd Gymdeithas Lenyddol capeli'r ardal – ynghyd â phob cymdeithas er hyrwyddo iaith a diwylliant ein cenedl.

Er cymaint colled yw ei farwolaeth i'w gapel a'i ardal, ar ei aelwyd yn y Berwyn y mae'r golled fwyaf. Roedd ganddo feddwl y byd o'i deulu bob amser a'r llawenydd mwyaf iddo oedd llwyddiant ei ddwy ferch Eira a Megan a'u teuluoedd a'u diddordeb yn y pethau gorau.

Ni allaf byth anghofio'r sgwrs olaf a gefais gydag ef yn Ysbyty Gallt y Sil. Yr oedd cyfeillion iddo wedi bod yn ei weld. Daeth un â thusw o flodau iddo, a daeth un arall â chroes fechan iddo a fendithwyd ar Sul y Palmwydd gan offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Gosodasai'r groes yng nghanol y blodau a thystiodd gyda llawenydd fod y Groes yn gysur mawr iddo yn ei gystudd. Bu farw'n orfoleddus ac Enw'r Iesu ar ei dafod a'r Groes o flaen ei lygaid. Diamau iddo yntau allu gweddïo geiriau'r emynydd, 'Derbyn f'ysbryd i'th lawenydd dwyfol Di.' Mae ardal gyfan yn cydymdeimlo'n gywir iawn â'r teulu yn eu colled fawr a'u hiraeth.
W.O.R.

# TALWRN Y BEIRDD

Dyma gynhyrchion Beirdd Llanrug a orfu Beirdd Glannau Llyfnwy mewn gornest ar 'Talwrn y Beirdd' yn ddiweddar. Dyma'r trydydd tro i'r tîm o Lanrug gystadlu.

*Limrig yn ymwneud â'r Gyllideb:*

**Meddai Wil 'rol y byjet, dan rwgnach,**
**"Mae pob peth dwi'n licio yn ddrytach,"**
**"Dim cweit," gwaeddodd Margiad,**
**Oedd yn disgwyl ei nawfad,**
**"Ond dwi newydd gael syniad, y bwbach!"**

*Englyn gyda'r gair 'Tref' ddwywaith: (Llafar y Llin neu Hamelyn)*

**I'r dref daeth gŵr arwrol – i ddenu**
**Yn ddawnus, ryfeddol,**
**O'r dref, â'r haid ar ei ôl,**
**Fe hudodd y dyfodol.**

*Cwpled Epigramatig (Rhydd) yn cynnwys y gair 'Gwan':*

**Mae y cryfaf yn gwegian**
**Wrth gario croes câr sydd wan.**

*Ateb Llinell:*

**'Nôl Beti Glep y brepwraig**
**Cawr yw Rhys sy'n curo'i wraig.**

*Pennill Dychan 'Swyddog Addysg':*

**'Rwy'n difaru'n lân imi drefnu'r cyfarfod,**
**Mae'r athrawon ifanc 'ma'n disgwyl gormod**
**Mae'r diawled am redeg cyn dysgu cerdded**
**– Ta waeth, mae hi'n tynnu at amser paned.**
**'Rôl snac yn 'Y Plough' af am Ysgol y Garreg,**
**Mae'r Pennaeth yno yn hen ffring Coleg.**
**Mae cael sgwrs efo fo yn donic digymysg,**
**Ond am y bôrs ar ei staff – dim ond Addysg!**
**Cyn diwedd y diwrnod gwell galw'n y Swyddfa**
**I glirio fy nesg cyn cychwyn am adra.**
**Ac yna i'r 'Cleaners' i gael fy siwt yn ôl,**
**Roedd gormod o sglein yn mynd ar ei phen-ôl.**

*Pennill Telyn yn cynnwys y gair 'Soser':*

**Pa werth cwpan heb ei soser?**
**Pa werth esgid heb ei phartner?**
**Pa werth iâr a beidiodd ddodwy?**
**Pa werth awen Glannau Llyfnwy?**

*Hir a thoddaid — Gwyliadwriaeth:*

**Heddiw mae'r gors dan gwrlid godidog**
**Yn nhawelwch y boreuddydd niwlog,**
**Mae'n genweirio yno'n y tir brwynog**
**Gan grwydro o bwll i bwll yn bwyllog**
**Â'i gerddediad llygadog. Yna brad**
**Eiliad o waniad garan newynog.**

*Cân: Llenwi Ffurflen:*

**Fe welwyd un adeg pan oedd angen digri,**
**Llond potel o inc, a thwrnai o fri**
**I lenwi pob ffurflen, boed fawr neu boed fach,**
**A hyd yn oed wedyn, roedd hi'n gythgam o strach.**

**Ond mae llenwi ffurflen yn hawdd erbyn hyn;**
**Does dim angen SGWENNU ar y papur gwyn;**
**Mae'r rhesi cwestiynau yn daclus a thwt**
**– A'r atebion yn dilyn wrth eu cwt.**
**A'r cwbl sydd eisiau yw dewis pa un**
**Sy'n ffitio'ch ateb chi eich hun,**
**A rhoi tic yn y bocs; dim ond tic yn y bocs.**

**Unwaith bob degawd fe ddaw i'n tŷ ni**
**Holiadur poblogaeth, a chwestiynau di-ri:**
**Ai 'male' ynteu 'female' yw pennaeth y tŷ?**
**"Wel, mêl i gyd, cariad," ddywedwn i;**
**Rho dic yn y bocs, dim ond tic yn y bocs.**

**Meddyliwch am ffermwr yn hawlio'i grant**
**Am bori defaid ar fryn a phant:**
**Enw, cyfeiriad, a rhif côd post yn llawn –**
**Er mwyn i'r siec fisol gyrraedd yn iawn:**
**Cyfri' pob dafad, a rhifo pob hwrdd,**
**A dyblu y rheini a redodd i ffwrdd;**
**A rhoi tic yn y bocs, dim ond tic yn y bocs.**

**Gydol ein hoes daw ffurflenni drwy'r post**
**– Ffurflen i bawb – dim ots am y gost:**
**Geni, priodi, prynu car, prynu tŷ,**
**Cael leisans teledu, ysgariad, H.P.**
**A phan ddaw yr ennyd ar ddiwedd y daith;**
**Ni ellir marw heb ffurflen 'chwaith**
**A rhoi Dic, toc, mewn bocs.**

*Cywaith Rhydd — Telyneg 2 bennill: Geni:*

**Faban – nid wyt ond seithpwys**
**O gorpws yn gorffwys,**
**Ond gyda'th ddyfodiad,**
**Diriaethwyd dyhead,**
**Crisialwyd uniad**
**Dy fam a dy dad.**

**Wyt ti'n sylweddoli,**
**Yn nefoedd dy noethni,**
**Y deillia'th deganau,**
**A ffysian perthnasau,**
**A'r mil o gusanau,**
**O haniaeth sy'n asio dau?**

*Cywydd — Gofyn am Godiad Cyflog:*

**Mwyach â cwrs fy mywyd**
**Yn fwy o aeaf o hyd.**
**Aeth corwyntoedd misoedd maith**
**Heibio – a oes rhyw obaith?**

**Rwy'n gweled fy ngwaredwr,**
**Ti, angylaidd, wylaidd ŵr,**
**Sant wyt ti all godi'r gwan**
**O dir oer prinder arian.**

**O ŵr gwâr, wyt ti'n barod**
**I roi hwb i droi y rhod?**
**Yn benisel apeliaf**
**Am help, am godiad, am haf.**

*Englyn o waith Cefnffordd (Newydd yr A55):*

**Mae'r llifddor yn agoryd – y teirw'n**
**Turio tua'r machlud,**
**A heddiw'n goddiweddyd**
**'Rhen arafach, burach, byd.**

# BABANOD LLANRUG – TUA HANNER CANRIF YN ÔL



*Anfonwyd y llun diddorol yma inni gan Mrs Morfudd E. Jones, Llangefni. Dyma hefyd ychydig o atgofion ganddi:*

*Yr athrawes ymroddgar oedd Miss A.E. Williams, Ty'n Winllan. Dysgodd do ar ôl to o blant Llanrug yn ei ffordd ddihafal ei hun. Cofiwn byth am ei ffordd ddeheuig o adrodd storïau. Fe gaem ein cipio ar adenydd hud i fro Hansel a Gretel a'u tebyg.*

*Roedd ganddi ddawn arbennig i adrodd hanesion o'r Hen Destament. Hir y cofir hanes y gigfran yn dod i borthi Eleias â bara a chig y bore ar lan afon Cerith.*

*Ceisiaf enwi fy nghyd-aelodau yn y dosbarth 'babies' fel y'i gelwid ef. O'r dde i'r chwith: Betty Wyn Evans, Emlyn, 3 Rhos Rug, Eon Jones, Nancy Morris Jones, Gwyneth Jones, Enid Jones, Irene Evans, Enid Lewis Roberts. Rhes flaen: Morfudd, Tom Alun Jones, Violet, Cledwyn Jones, Meira, Cefn Llwyd, William John Hughes, Enid Griffiths, Mair Eluned Hughes. Eistedd: Tom Griffiths, Tŷ Newydd, Ronnie.*

# ENILLWYR Y MWYAF O FARCIAU



*Y cystadleuwyr a enillodd y mwyaf o farciau ym Mabolgampau Ysgol Brynrefail — rhagor o luniau ar y dudalen ôl.*


**W.J.GRIFFITH**
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr..*

STORFA
**Mace**
John a Roberta
**Griffith**
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd
Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
**E. PUGH**
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

# LLANBERIS

## Yr Oriel yn agor am dymor arall



*Y Cynghorydd Francis Jones, Yr Arglwydd Cledwyn, Mr a Mrs Iorwerth Ellis a Mr Selyf N. Hughes, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanberis ar achlysur agor yr Oriel am yr haf. (Gw. y dud. nesaf am y stori)*

LLWYDDIANT EGLWYSIG: Llongyfarchiadau calonnog iawn i'r pedair merch ifanc, aelodau o Ysgol Sul Capel Coch, am ennill llwyddiant uchel yn arholiadau dan nawdd Eglwysi Presbyteraidd Cymru. Cyflwynwyd eu gwobrau a'u tystysgrifau iddynt yn Eglwys Tŵr Gwyn Bangor. Pleser mawr yw cyhoeddi eu henwau i'r holl ardalwyr gael y wybodaeth, eu hymdrechion a'u llwyddiant. Dyma'r enwau: Nia Gwyn Griffiths, Llwyn Piod; Siân Gwyn Griffith, Llwyn Piod; Glenda Jones, Stryd y Ffynnon; Catrin Lloyd Roberts, Merddyn Coch.

Ardderchog iawn enethod – yr ydych yn esiampl i lawer yn yr ardal.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR: Yn Eglwys Taberncal Cwm-y-glo ar y Sul diwethaf o fis Ebrill cynhaliwyd cymanfa flynyddol yr Annibynwyr cylch Cwm-y-glo, Deiniolen a Llanberis. Yn y cyfarfod prynhawn cafwyd cyfraniadau plant yr Ysgolion Sul. Dehonglwyd pedair o'r damhegion mewn cân, darlleniadau ac actio.

Gan blant bach Bosrah cafwyd 'Dameg yr Heuwr', gan blant Jerusalem 'Y Ddafad Golledig' gan blant Nant Padarn 'Y Samaritan Trugarog' a chan blant Ebenezer 'Y Mab Afradlon. Arweiniwyd y canu gan Mr Robert Lloyd, Llanberis a chyfeiliwyd gan Mr John Jones, Deiniolen.

Yn yr hwyr cafwyd cynulleidfa bur dda a chanu ysbrydol iawn. Llywyddwyd y gymanfa gan Lywydd Pwyllgor y Gymanfa. Diolchodd i'r swyddogion am eu llafur i sicrhau llwyddiant y Gymanfa, ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r gymanfa eto eleni.

CYMANFA YR EGLWYSI BRESBYTERAIDD: Yn Eglwys Rehoboth Nant Peris y cynhaliwyd Cymanfa Cylch Padarn, eleni, ar Fai 6. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Gymanfa gael ei chynnal yn Rehoboth. Arweiniwyd y canu gan John Jones, Deiniolen a'r cyfeilydd oedd Hugh Peris Pritchard ac Einir Wyn Jones. Bu'r plant yn lluosog iawn a bywiog eu canu yn y prynhawn, a daeth cynulliad da ynghyd i gyfarfod yr hwyr, gan wir fwynhau'r canu a'r unawdau gafwyd gan Annette Roberts, Dinorwig a'i chyfeillion. Noson o wir fwynhad i bawb.

Llongyfarchiadau i ferched Eglwys Rehoboth ar y croeso eithriadol a ddangoswyd ganddynt i'r plant a'r oedolion yn y wledd yn y prynhawn – gwledd o ddanteithion cartref, pawb wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y gymanfa gyntaf yn y pentre. Roedd yn dod ag atgofion Te'r Gymanfa yng Ngorffwysfa erstalwm.

CYFLWYNO RHODD: Cyflwynodd aelodau o Gymdeithas y Chwiorydd siec am £500 i'r Dr Dan Hughes at fudd cleifion yn y clinic. Nid yw'r Gymdeithas wedi ei ffurfio ond ers blwyddyn ac maent wedi codi arian sylweddol iawn at achosion da yn yr ardal. Bydded llwyddiant ar eu hymdrechion.

WEDI GWELLA: Yn ystod mis Ebrill bu Llion Hughes, Stryd Thomas yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty ym Mangor. Mae gartref erbyn hyn ac wedi gwella yn holliach. Da iawn wir, Llion, a deallwn hefyd eich bod wedi bod yn fachgen bach eithriadol o dda tra yn yr ysbyty.

GWAELEDD: Er y tywydd braf a heulog a gawsom yn ystod Ebrill a Mai mae amryw o'r trigolion yn cwyno o hyd, rhai yn bur ddrwg ac wedi symud i'r ysbyty. Gobeithio y cawn glywed am eu gwellhad yn fuan. Yn Ysbyty Môn ac Arfon y mae Maggie Price, Stryd Siarlot a Katie Jones, Pen Lôn gynt, yng Ngallt y Sil, Mrs Annie Lloyd Roberts, Dôl Eilian.

Wrth gerdded o'r Eglwys ar fore Sul, syrthiodd Mrs Betty Williams, priod Glyn Williams, Maes Padarn a thorri ei choes. Dymunir iddi adferiad llwyr yn fuan iawn.

Wedi symud i 'Cartref Pengwaith y mae David Davies, Dôl Eilian. Nid yw'r golwg wedi bod yn rhy dda ers tro ganddo. Gwellhad buan i chi, David. Hefyd i Emlyn Davies, Teras yr Afon. Brysiwch wella.

TORRI EI GOES: Anffodus iawn fu Rheon, mab Alun ac Ann Roberts, Stryd Goodman pan yn chwarae ym maes chwarae 'Y Gias'. Syrthiodd a thorri asgwrn ei goes. Mae hyn yn ei gaethiwo yn arw, ac yntau yn fachgen bach mor brysur a nwyfus. Hitia befo, Rheon, cei redeg a neilltuo eto faint a fynnot ar ôl y seibiant yma. Mae'r plant yn dy golli yn y dosbarth yn yr ysgol.

Ond **tydi** o yn beth rhyfedd Rheon, Yncl Brinley, drws nesa', wedi torri asgwrn ei droed yr un fath! Y ddau ohonoch yn mynd o gwmpas hefo baglau cyn bo hir. Brysiwch chwithau i fendio, Brinley.

Yn Ysbyty Dewi Sant mae Mrs Ellen Jones, Pentre Castell.

Mae Mr Derek Jones, Stryd yr Wyddfa yn Ysbyty Eryri.

Yn Ysbyty Môn ac Arfon y mae Mrs Lowri Thomas, 13 Ffordd Tŷ Du – hithau wedi derbyn triniaeth lawfeddygol.

Da deall fod Dylan, mab Catherine a John Williams, 6 Rallt Goch yn gwella hefyd. Bu Dylan yn derbyn triniaeth i'w glustiau yn Ysbyty Môn ac Arfon ond mae adref erbyn hyn.

DIOLCH: Dymuna Catherine a John Williams, 6 Rallt Goch ddiolch i'w perthnasau a'u ffrindiau am eu caredigrwydd i Dylan tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

UNDEB Y MAMAU: Ar y dydd Mawrth cyntaf o'r mis, sef Mai 1, daeth aelodau o Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn i gyfarfod o Undeb y Mamau dan lywyddiaeth Mrs Charles o Rhosgadfan. Mwynhawyd ei haraith ddifyr ar astudiaethau cymdeithasol a'r problemau a'r cyfrifoldeb a ddisgynnai i ran bob un o'r gweithwyr cymdeithasol. Roedd yr araith yn rhoi agoriad llygad i amryw o'r aelodau i'r maes eang yma. Bu trafodaeth ar ddiwedd y cyfarfod ar yr Ŵyl Flynyddol a gynhaliwyd yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor ar Fai 17. Mrs Edna Jones oedd y banerwr yn yr orymdaith ar y dydd.

PERSONOL: Llongyfarchiadau i Graham unig fab William Roberts a'i briod, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ar ei lwyddiant gyda'i brentisiaeth gyda Bwrdd Trydan Prydain, Adran Gogledd Orllewinol.

Gosodwyd ef yn un o'r prentisiaid gorau'r flwyddyn, ac mae'n cael cyfle o gael ymweld â Ffrainc, i astudio eu dulliau hwy, yna bydd prentis o Ffrainc yn dod yma.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod Sefydliad y Merched a gynhaliwyd yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones, Tawel Lan yn llywyddu. Darllenwyd a thrafodwyd materion yn codi o'r llythyr misol a hefyd agenda'r cyfarfod blynyddol. Yn ystod y noson trefnwyd stondin 'Prynu a Gwerthu' gan yr aelodau a diweddwyd y noson gyda rhaglen fer o 'Holi ac Ateb' wedi ei threfnu gan y llywydd. Mynegwyd y diolchiadau gan Mrs Nan Owen. Cafwyd noson hwyliog dros ben. Enillwyd y raffl gan Mrs Megan Hughes, Mrs Katie Williams a Mrs Nan Owen. Y gwestwragedd oedd Mrs Arfonia Evans, Mrs A.B. Jones, Mrs Netta Jones a Mrs Hannah Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fai 31. Taith Ddirgel sydd wedi ei threfnu ar gyfer mis Mehefin.

I gynrychioli'r adran yng Nghynhadledd Flynyddol yn yr Albert Hall yn Llundain, Mrs Beti Humphreys, Nant Peris a ddewiswyd. Nos Iau, Mai 17 aeth nifer o'r aelodau i'r Astra yn Llandudno i weld perfformiad gan Gwmni Opera Llandudno o'r Merry Widow. Noson ardderchog.

CLWB YR HENOED: Nos Fawrth Mai 15 cyfarfu Pwyllgor Clwb yr Henoed yn y Ganolfan gyda Mrs Meira Bryn Hughes yn llywyddu. Cyfeiriodd Mrs Hannah Jones un o aelodau'r pwyllgor, at y brofedigaeth lem a ddaeth i ran y llywydd, ac yn y modd priodol dangosodd y pwyllgor eu cydymdeimlad â'r llywydd. Diolchodd hithau iddynt oll am eu cydymdeimlad a'u geiriau caredig.

Trefnwyd i gael trip i'r pensiynwyr ar Fehefin 23 ac i Landudno y bwriedir mynd eleni, gyda'r bysiau i gychwyn yn brydlon am hanner dydd.

Trefnwyd hefyd i nifer o'r clwb gael mynd i Theatr Capel Seilo i raglen arbennig gan Meredith Edwards a'i westeion – y rhaglen 'Sgwrs a Chân'.

DWY GYMRAES FACH NEWYDD: Gyda dim ond ychydig ddyddiau rhyngddynt, ganwyd merch fach i Sandra a Dave, Llainwen Uchaf, a merch fach i Karen a Ron, Dôl Eilian. Fel y gwyddom dwy chwaer yw Karen a Sandra – Branwen yw enw merch fach Karen – ond ni phenderfynwyd ar enw i ferch fach Sandra eto.

Dwy chwaer lwcus – a dwy Gymraes fach newydd i ni gael 'dotio' arnynt. Gwyn eu byd ynte!

Bachgen bach a gafodd Helen a Barrie Thomas, Bryn Hafod, Stryd Newton yn ystod y mis. Lwcus iawn, mae ganddynt fab a merch fach – ac enw'r babi newydd yw Jac.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Menai, merch Breda a Huw Hughes, 87 Maes Padarn ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â Jean Jones, 40 Stryd Newton yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Buddug, oedd wedi byw allan o Gymru ers blynyddoedd lawer. Cofiwn y teulu bach yn byw yn Stryd Newton pan yn blant bach, a'u rhieni yn hanu o'r ardal – un o hen deuluoedd hynaf yr ardal.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Arthur Jones, Bryn Bella, Stryd Newton. Bu farw Mr Jones ddydd Mawrth, Mai 22 yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CYDYMDEIMLAD: Ym Manceinion yn ddiweddar bu farw Olwen, un o ferched y diweddar Lewis Griffith a'i briod Annie, Llainwen Uchaf. Roedd Olwen yn un o bump o blant ac mae Hugh ei brawd yn byw gyda'i deulu yn Llainwen Isaf.

Cydymdeimlwn ag ef, ac hefyd Mrs Mary Grace Griffith, 5 Dôl Eilian, chwaer yng nghyfraith iddi a Stanley ac Eurwyn Griffith, meibion Mrs Mary Grace Griffith.

GOFAL CYMDEITHASOL: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiad 'Gofal Cymdeithasol' dan nawdd y St John yn ddiweddar. Catrin Lloyd Roberts, Alison Jones, Cwm-y-glo, Gilian Vaughan Jones, Eifion Griffith. Deëllir fod safon y gwaith yn eithriadol o uchel. Da iawn chi.

PRIODAS: Prynhawn Sadwrn, Mai 26 yn Eglwys St Padarn priodwyd Caroline, merch Mair a Ted Toleman, 10 Maes Padarn â Carl Richard Schulze, gynt o Lundain, ond o Ynys Wen ers tua tair blynedd. Daeth oddeutu 87 o westeion ynghyd i ddymuno'n dda i'r ddau ac i fwynhau'r wledd briodas yng Ngwesty Dolbadarn.

Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i'r pâr ifanc. Byddant yn ymgartrefu yn Ynys Wen.

DIOLCH: Dymuna Awen Addie, Goleufryn, Stryd Newton ddiolch i'w theulu, ffrindiau yn Llanberis a'r cylch, cyd-weithwyr yn Ysgol Friars, Bangor, Staff Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri, Caernarfon a Staff Clinic Llanberis am eu caredigrwydd a'u cymorth drwy'r misoedd diwethaf. Diolch yn fawr.

DYDD O RODD: Ar Fai 4 fe gynhaliwyd Dydd o Rodd yng Nghapel Coch. Erbyn hyn, a'r arian yn dal i ddod i law, casglwyd cyfanswm o dros £1,100. Dymuna'r swyddogion ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd, a hynny mor haelinus, er sicrhau llwyddiant y fenter. Wynebwn gost enfawr, ond mae'n amlwg fod yna wir ewyllys dda a chariad tuag at yr Achos newydd hwn, fydd yn sicrhau ei lwyddiant. Diolch yn fawr.

HELFA DRYSOR: Cynhelir Helfa Drysor i barau, o dan nawdd Pwyllgor y Carnifal, ar ddydd Sadwrn, Mehefin 16. Cychwynnir o Angorfa, Stryd y Ffynnon am 10 o'r gloch. Bydd gwobrau i'r goreuon o Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail.

THEATR FACH GORFFWYSFA: Nos Iau, Mai 17 cynhaliwyd Noson Goffi ac Arwerthiant yn y Ganolfan. Gwnaethpwyd oddeutu £250 o elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Dymuna Carys, Mair a chriw'r Clinic ddiolch o galon am y gefnogaeth wych a gawsant.

Diolch o galon i Griw'r Clinic ac i Carys am drefnu noson mor

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## LLANBERIS (parhad)

lwyddiannus. Roedd yn amlwg fod y gwaith paratoi wedi bod yn ddygn. Diolch genod. Dyna yw dymuniad y Cwmni Drama.

Erbyn hyn mae dros dreian yr arian i brynu'r Festri wedi ei gasglu. Trefnwyd rhagor o weithgareddau codi arian. Nos Wener, Mehefin 8, cynhelir noson 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Rhowch eich enwau i Mrs Carys Hughes, Stryd lanci neu Jane Morris, 3 Pen y Bont. £1.50 yw pris y bwyd.

Nos Fawrth, Mehefin 12 cewch gyfle i golli ychydig o bwysau mewn noson o 'Gadw'n Heini' yn Ysgol Dolbadarn rhwng 7 ac 8.30. Bydd Miss Nia Williams, Y Coleg Normal yno'n gwneud yn siŵr eich bod yn plygu a sythu ac ati. Gellwch brynu eich tocyn 50c yn rhai o siopau'r pentref neu gan aelodau'r Cwmni Drama.

YR YSGOL FEITHRIN: Yn ystod Wythnos Ŵyl Mudiad Ysgolion Meithrin, cynhaliwyd Noson Goffi ac Arwerthiant yn y Ganolfan. Gwnaethpwyd elw o £150 er budd yr Ysgol Feithrin yn Llanberis. Dyma enillwyr y raffl: Mrs M. Jones, 25 Maes Padarn, Andrea Roberts, 20 Stryd Goodman, Mrs M. Willis, 24 Maes Padarn, Mrs Thomas, 25 Dôl Eilian, Mrs H. Sharp, 28 Maes Padarn. (2); Mrs Ll. Foulkes, Maes Padarn, Dylan Williams, Rallt Goch. Rhifo'r pys: Rhian Roberts, Bistro, Dylan Williams, Rallt Goch. Pigo'r blodyn, Mrs N. Williams, Stryd Thomas. Hoffa Pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd a gweneud y noson mor lwyddiannus.

DIOLCH: Dymuna Mrs Dilys Owen, Bryn Gwynedd, Stryd Newton ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yr oedd yn yr ysbyty ac hefyd ar ôl dod adref.

YSGOL DOLBADARN: **Cronfa Achub y Plant:** Ers mis Mawrth bu'r plant yn casglu tuag at Gronfa Achub Plant y Trydydd Byd. Caed ymateb brwd i'r ymdrech ac fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £245. Bu'r Cynghorydd J. Lasarus Williams, Cadeirydd Awdurdod Addysg Gwynedd, a lansiodd y Gronfa, yn yr Ysgol yn diolch i'r plant am eu gwaith da. Dymuna'r prifathro ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth brwd tuag at yr achos.

**Yr Ymgyrch Lyfrau:** Fel arfer, caed cefnogaeth dda gan drigolion Llanberis a Nant Peris eto eleni. Gwerthwyd gwerth £443.38 o lyfrau. Diolch i'r plant, i bawb a brynodd lyfrau, ac hefyd i Miss Jane Morris am drefnu'r ymgyrch.

**Rhaglen deledu 'Gwely a Brecwast':** Bu cryn ddiddordeb yn y rhaglen uchod gan i ran o'r gyfres gael ei ffilmio yng Ngwesty'r Grosvenor, Llanberis. Dewiswyd Euron Thomas Tŷ'r Ysgol i actio yn y gyfres ac fe gymerwyd rhannau eraill gan lu o blant yr Ysgol. Edrychwn ymlaen am eu gweld ar y teledu yn y dyfodol agos.

**Gweld y Tywysog:** Aed â'r plant oedd yn bresennol yn yr Ysgol ar ddydd Mercher, Mai 9 i weld y Tywysog Siarl pan oedd ar ei ffordd i seremoni agor Pwerdy Dinorwig yn swyddogol. Bu'r plant yn ddigon ffodus o gael cip olwg ar y Tywysog. Cawsant eu ffilmio hefyd gan yr Awdurdod Trydan Canolog.

**Croeso:** Estynnwn groeso i Mrs Helen Parry o Lanrug fel athrawes dros dro i'r Ysgol. Nid dyma'r tro cyntaf i Mrs Parry fod yn Ysgol Dolbadarn a mawr hyderwn y bydd yn hapus yn ein cwmni.

**Cynrychioli Sir Eryri:** Bydd Rhian Roberts yn ogystal ag Anna Lloyd Roberts yn cynrychioli Sir Eryri ym Mhwll Nofio Treffynnon yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Pob llwyddiant i'r ddwy.

**Marathon yr Urdd:** Llongyfarchiadau i Lynda Prydderch am ddod yn gyntaf ac i Julie Baylis ar ddod yn bedwerydd yn y marathon yng Nghaernarfon ar Fai 19.

**Aelod o Dîm Gwynedd:** Llongyfarchiadau i Marc Lloyd Williams am gael ei ddewis i chwarae i dîm pêl-droed Gwynedd. Bu Marc yn chwarae gyda'r tîm ar yr enwog Gae Ras, Wrecsam. Bu'r tymor hwn yn un hynod lwyddiannus yn hanes Marc. Bu hefyd yn chwarae i Dîm Pêl-droed Arfon mewn cystadleuaeth ym Mhwllheli.

**Clwb Gymnasteg:** Ffurfiwyd Clwb Gymnasteg yn yr Ysgol gan Mr Teifion Thomas a mawr yw ein dyled iddo am oriau o lafur gwirfoddol gyda'r plant yn y maes chwaraeon.

Cyflwynwyd bathodyn a thystysgrif B.A.G.A. sef Cymdeithas Gymnasteg Amatur Prydain, i'r plant a ganlyn:
**Safon 3:** Bruce Turner, Lyn Davies, Michelle Willis, Annette Sellars, Steven Lloyd, Edward Rogers, Marc Bourne, Lisa Jones, Michelle Carr. **Safon 4:** Stacey Turner, Simon Williams, Delyth Davies, Julie Baylis, Sharon Philips, Christine Pitts, Nerys Hughes.

Llongyfarchiadau i'r plant am ymddiddori mewn gwaith o'r natur hwn.

**Teithiau Ysgol:** Eto eleni rhoddir y cyfle i bob plentyn fynd ar daith ysgol. Ar Fehefin 29 bydd deugain o'r plant hynaf gyda phedwar o'r athrawon yn teithio i Lundain gan aros noson yno. Bydd y gweddill o blant yr Adran Gynradd yn mynd i Butlins cyn diwedd y tymor gan aros mewn mannau o bwys ar y ffordd. Ar Fehefin 15 bydd Dosbarth 2 a 3 y Babanod yn talu ymweliad â Sw Bae Colwyn. Yna ar ddiwrnod braf cyn diwedd y tymor bydd Dosbarth I Babanod a'r Dosbarth Meithrin yn mynd i fwynhau picnic blasus ar dywod euraidd Dinas Dinlle.

**Tynnu Lluniau:** Ar ddydd Mawrth a dydd Iau, Mai 22 a 24 bu Mr Len Jones, ffotograffydd yn brysur yn tynnu lluniau plant yr ysgol.

**Twrnament Pêl-rwyd:** Tîm Pêl-rwyd Ysgol Dolbadarn oedd pencampwyr Twrnament Cymdeithas Chwaraeon Arfon a gynhaliwyd ar faes chwarae Ysgol Bontnewydd, ddydd Mercher, Mai 23. Cyflwynwyd tarian a medalau i'r genethod.

**Aelodau'r tîm oedd:** Lynn Jones (capten), Jennifer Clarida, Julie Baylis, Nerys Hughes, Christine Pitts, Helen Thomas a Linda Prydderch. Einir Thomas ac Annette Sellar oedd yr eilyddion.

**Gala Nofio:** Anffodus iawn oedd tîm nofio yr Ysgol yn y Gala Nofio yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ddydd Gwener Mai 25 gan iddynt golli o chwech phwynt yn unig i Ysgol y Gelli, Caernarfon. Allan o wyth ysgol y Gelli gyda 79 o bwyntiau a oedd yn fuddugol gydag Ysgol Dolbadarn yn ail gyda 73 o bwyntiau. Yn wir roedd Ysgol Dolbadarn ar y blaen o'r cychwyn hyd at ddechrau'r rasus cyfnewid:
**Enillwyr: Dan 10 oed:** Anna Roberts (1af broga); Aled Hughes (1af cefn); Rhian Roberts (ail cefn). **Dan 11 oed:** Catherine Gray-Williams (1af broga); Alun Baylis (1af cefn); Catherine Gray-Williams (ail rhydd a cefn); Cai Williams (ail rhydd). **Dan 12 oed:** Jennifer Clarida (ail cefn).

### PÊL-DROED

**Pnawn Sadwrn, Mai 26 bu gêm bêl-droed anghyffredin iawn ar y cae chwarae. Daeth bechgyn dan 12 oed o Fanceinion i chwarae yn erbyn bechgyn o'r un oed o'r ardal. Dyma'r tro cyntaf i fechgyn Llanberis gael cyfle i chwarae mewn gêm "go-iawn". Gresyn na fuasai mwy o oedolion wedi dod yno i gynorthwyo'r bechgyn, a diolch i'r oedolion hynny a fu'n trefnu'r cyfan, a gobeithiwn hefyd y bydd trefniadau cyffelyb yn y dyfodol ac y dangosir mwy o gefnogaeth gan yr ardalwyr.**

### DRAENOG



**INSYLT!**

**Clywed wnes i ei bod hi wedi bod yn ddiwrnod sbesial yn y gwaith mawr 'na yn Llanberis yn ddiweddar. Tywysog Cymru no les, wedi dwad draw i agor y lle, plant ysgol yn heidio i gael cip arno a phobl o bob math o bolitics bron yn cwffio am offisial infitesion er mwyn cael siawns i ysgwyd ei law. A'r bwyd yno – wel digon i gadw teuluoedd holl feinars Cymru rhag llwgu am rai dyddiau.**

**Ond Ow! Yr yltimet insylt! Pan ddaeth ein tywysog o flaen ei werin roedd tri o'r gests yn dal i eistedd tra roedd y lleill i gyd yn codi ac yn dangos y parch at ein gwell sy mor nodweddiadol ohonom ni'r Cymry sifulaisd.**

## AGOR YR ORIEL DROS YR HAF

Nos Wener, Mai 25 agorwyd Oriel Eryri yn swyddogol am fisoedd yr haf yn unig i gyflwyno arddangosfeydd o bob math. Arglwydd Cledwyn o Benrhos a wahoddwyd i agor yr amgueddfa, a chyflwynwyd ef i'r gwahoddedigion gan y Dr Bassett o Gaerdydd. Cyfeiriodd Cledwyn Hughes at bwysigrwydd Oriel Eryri. Dyn a'i Amgylchfyd yw thema gyffredinol yr Oriel gan mai ei phwrpas yw dehongli'r cysylltiad rhwng dyn a chefn gwlad Eryri. Bydd cryn bwyslais felly, ar natur, daeareg a daearyddiaeth. Dylai'r Oriel fod o fudd mawr i ieuenctid y cylch, i feithrin a magu diddordeb yn y cyfoeth sydd yng nghreigiau Eryri.

Yn ystod y noson cafwyd gwledd o ddarluniau Jane Carpanini – darluniau sydd yn tynnu sylw at agweddau o'n hamgylchedd trefol na fyddwn fel arfer, yn sylwi arnynt efallai. Mae'r rhan fwyaf o waith yr artist wedi ei selio ar drefi a phentrefi Arfon.

Mae darluniau gwych o dre Caernarfon, y Felinheli, Conwy, Aberystwyth, Hwlffordd a llawer tref arall.

Gwelwyd yno hefyd gasgliad helaeth o blanhigion a gasglwyd gan Evan Roberts, Capel Curig, y gŵr sydd ers blynyddoedd lawer bellach wedi ymddiddori ym myd llysieueg ac erbyn hyn yn arbenhigwr ar blanhigion prin Eryri.

Gwledd i'r llygaid ydoedd yr enghreifftiau gwych o glociau a adeiladwyd gan wneuthurwyr clociau o Lanrwst – teulu William Owen. Clociau mawr hen ffasiwn yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu gwneud tua'r 18fed neu'r 19eg ganrif.

Cewch weld yno amryw o fapiau o Wynedd. Darlunir Gwynedd, ei thywydd, ei phobl, ei daeareg, ei daearyddiaeth a'i thrafnidiaeth ynghyd â llawer agwedd arall o fywyd y sir, drwy gyfrwng y mapiau.

Yn awr dan berchenogaeth
**GWYNETH ROBERTS**
**Siop**
**E.WILSON HUGHES**
84 Stryd Fawr
LLANBERIS 870491
**Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!**

**SCIPIAU TIM**

**o £16**
CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL
LLANBERIS 871354

# CHWILOTA

*(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)*

## "GEIRIAU AR GOLL"
## MWY O HANES DEWI PERIS

**Dyma ran o erthygl ar Dewi Peris a ymddangosodd yn 'Y Genninen' – Gŵyl Ddewi 1892. Ysgrifennwyd yr erthygl gan W. Ryle-Davies (Llundain). Yma, rhoir disgrifiad o allu Dewi Peris fel chwarelwr.**

Yr oedd Dewi Peris yn chwarelwr yn ystyr fanylaf y gair. Y mae llawer yn gweithio yn y chwarel, ie, ac yn ystyried eu hunain yn chwarelwyr, yn fargeinwyr; ond, eto, nid ydynt yn chwarelwyr, yn ystyr fanylaf y gair. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng chwarelwr a chwarelwr. Ni ellir ystyried dyn yn chwarelwr yn yr ystyr fanylaf os na all weithio i *fewn* ac *allan* fel ei gilydd. Drachefn, y mae gwahaniaeth mawr rhwng y naill chwarelwr a'r llall yn y dosbarth cyfyng hwn. Y mae llawer un all weithio gyda deheurwydd lled fawr *allan* – *hollti* a *naddu* – yn hynod o anfedrus pan y bydd angen iddo fyned i *mewn* – i dynu y graig a'i brashollti. Y mae ambell un yn rhwygo y graig – yn malu pobpeth – yn ei thynu megis gerfydd gwallt ei phen; tra y mae un arall yn ei denu, megis, i'r fath raddau fel y mae yn gollwng ei gafael yn ei chefnau, ei thraed, ei chrybiau, a'i phefals!

I ddyn meddylgar, y mae yn anhawdd meddwl am ddim allai fod yn well moddion disgyblaeth meddwl na thynu y graig i'r fantais oreu; oblegid nid yw byth yn cyfarfod ag efelychiad ar ddalennau ei lyfr, dalen newydd o'r hwn a droir ganddo yn barhaus! Ac eto, hynod mor fychan yw nifer y dosbarth hwn o chwarelwyr.

Ond yr oedd Dewi Peris ar y blaen yn y dosbarth cyntaf o chwarelwyr: yn un o'r ychydig bersonau mewn gwaith allant wneyd gwerth punt yr un o gerig mewn diwrnod: îe, ac a allant weithio pob math o gerig i'r fantais oreu. Yr ydoedd yn wrthddrych cenfigen rhai oherwydd ei fod yn gallu tynu y graig mor ddidrafferth: a phe buasai modd o gwbl gael lle i feddwl o'r fath, buasai llawer un yn barod i haeru fod Natur yn gwneyd ffafr ag ef ym mhob man! Ond yr oedd ef yn gorchfygu Natur trwy ufuddhau i'w deddfau. Darllenodd Dewi bapur ar "Frashollti," er's blynyddoedd bellach, yn un o gyfarfodydd Cymdeithas Lenyddol Deiniolen a Dinorwig ag y byddai yn dda iawn i chwarelwyr ieuaingc ei ddarllen a'i efrydu. Hefyd, ysgrifenodd draethawd gwerthfawr ar "Chwarelyddiaeth: hanes, egwyddorion, a'r ymarferiad o weithio, y llech-chwarelau." Gwyn ei fyd na ddewisid dynion tebyg i Dewi Peris, fel chwaraelwr, yn oruchwyliwyr ar lech-chwarelau Gogledd Cymru. Rywfodd, hyd yn hyn, nid y chwarelwr goreu sydd yn cael ei ddewis yn oruchwyliwr! Pa hyd, pa hyd, yr erys y ffolineb a'r gorthrwm hwn i ddifetha y meistr a'r gweithwyr, i warthruddo perchenogion llech-chwarelau ein gwlad, ac i ddiystyru y chwarelwyr goreu?

"Beth a fyddaf? Beth wyt ti'n awr?"

"Beth fyddaf, tybed?" meddai'r dyn,
Mewn ymson dystaw wrtho'i hun,
Tra'n tremu i'r dyfodol cudd,
I ganol rhyw dywyllwch prudd.
O ddyn! ystyria; na fydd ffol –
rhaid troi'r gofyniad yna'n ol:
Nid beth a fyddi y dydd mawr
Yw'r cwestiwn: ond, Beth wyt ti'n awr?

"Beth yw Amser?"

Beth yw amser? Breuddwyd noswaith,
  Yn diflannu gyda'r wawr,
Neu ynysig fach yn siglo
  'Ngefnfor tragwyddoldeb mawr;
Mae'n ymlithro rhwng ein dwylaw
  Ymaith, fel aderyn chwim;
Er dymuno arno aros
  Enyd fer, ni erys ddim.

Beth yw amser? Gwenol chwimwth,
  Gyda'r hwyr yn croesi'r ddol;
Wedi myned heibio unwaith,
  Ofer galw arno'n ol;
Eto, rywfodd, fe wastreffir
  Hwn yn fwy na chyfoeth byd:
Ni ddaw dyn i'w iawn ddefnyddio,
  Nes ei wario bron i gyd.

Beth yw amser? Gwrid genethig,
  Heddyw'n dawnsio ar ei boch;
Ond yfory bydd yn gwywo
  Ymaith, megys rhosyn coch;
Munyd sydd yn gwthio munyd
  Drosodd, i'r gorphenol du;
Munyd arall wthia hwnw,
  Yn ei dro, i blith a fu.


**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**
(Richard a Meirwen Thomas)
**Llanrug**
*Ffôn: CAERNARFON 4652*


## MWY AM FELIN SAM

Yn dilyn yr atgofion a'r hanesion am Felin Sam ac ardal Clwt-y-bont y mis diwethaf, daeth galwad ffôn oddi wrth Dafydd Orwig, Bethesda, yn dweud i Felin Sam gael ei gwerthu yn ystod 20au y ganrif hon. Roedd y gwerthiant yng ngofal Cyngor Tref Llandudno. Sut tybed yr aeth Felin Sam yn eiddo i'r dref honno? Os oes rhywun â mwy o wybodaeth, cofiwch gysylltu.

Mae'n debyg mai 'Quarry Arms' oedd y 'Cwerin' y sonnir amdano yn atgofion Mr O.H. Jones. 'Cweri' oedd y gair am y dafarn ar lafar.

**Camp Enfawr Gorsaf Bŵer Dinorwig**

**Gorchest yr Elidir y gorffennol a heddiw**
**O'i phen i'w thraed fe'i saethwyd**
**O Bonc i Bonc yn drefnus fe'i hagorwyd**
**A'i gwasgedig graig a naddwyd**
**Ei thrysor llwyd i'r holl fyd allforiwyd**
**Tystia'r tomennydd rwbel anferth**
**I gledi'r gwaith a maint yr aberth**
**Er rhoi yn helaeth am ddwy ganrif**
**Gorffennaf chwe deg naw a gofir**
**Ataliwyd cynnyrch y dal Elidir**
**A gwaith ei dewrion ŵyr derfynwyd**
**Y chwarel fawr, y stâd a'r sgweiar**
**A ddaeth fel pawb i ben ei dalar.**
**Ond segurdod ni chai'r Elidir**
**Ei hendrist ddiben a newidir**
**Ei dirgel berfedd a wagawyd**
**Marchlyn Mawr trwy'i bol arllwyswyd**
**Y tywyllwch oesol yn oleuni drowyd**
**Heddiw gwelwn ffrwyth yr ymdrech**
**Canmolwn bawb fu'n rhannu'r orchest**
**Fawr yn nghôl Elidir fechan**
**I'w throi yn anferth Bwerdy Trydan.**

## CEUNANT

LLWYDDIANT: Yng nghymanfa Ysgolion Sul dosbarth Caernarfon yng Nghapel Engedi, Caernarfon gwobrwywyd am ennill y wobr gyntaf yn yr arholiad llafar dan 7 oed: Dylan Thomas, Tŷ Capel. Dan 13 oed: Gwenno Parri, Morwel. Llongyfarchiadau iddynt.

## O BANTRI BETH



Mae fy niolchiadau i Mrs Joan Griffiths a Mrs Marina Williams am y risetiau mis yma.

**CACENNAU JOAN**

6 owns margarîn
pinsiaid o halen
1 owns siwgr eisin
6 owns blawd codi
diferyn neu ddau o esens vanilla

Curwch y saim a'r siwgr gyda'i gilydd yn dda. Ychwanegwch y vanilla ac yn raddol ychwanegu'r cynhwysion eraill. Dylai'r cymysgedd fod yn eitha meddal.

Rhowch llwyaid bwdin go dda mewn câs papur a'u crasu. Nwy 4 neu drydan 350 F am 20-25 munud.

Rhowch ychydig o'r sigwr mân ar ben y cacennau, a llwyaid o jam yn eu canol.

**BISGEDI MARINA**

6 owns blawn plaen **neu**
4 owns blawd plaen a 2 owns o India corn
4 owns margarîn caled
2 owns siwgr castor

Gogrwch y blawd. Ychwanegwch y saim a'i rwbio nes y bydd fel briwsion bara. Ychwanegwch y siwgr a dal i'w rwbio nes y bydd y cymysgedd yn glynu at ei gilydd.

**D.S.** Os bydd tueddiad i fod yn rhy sych ychwanegwch gwyn-wy.

Roliwch y cymysgedd nes y bydd tua chwarter modfedd o drwch a'i dorri i siâp a'i roi ar dun pwrpasol.

Craswch am 15 munud nes bydd yn euraid ei liw.

Taenwch haenen o sigwr mân cyn eu rhannu.

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


**E.W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

# BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

DIOLCH: Dymuna Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel ddiolch i'r teulu, cymdogion, a'u ffrindiau ymhell ac agos am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd yn ystod ei harholiad yn Ysbyty Dewi Sant a Minffordd; hefyd diolch i'r meddygon a'r nyrsus am eu caredigrwydd a'u gofal.

CLWB Y MAMAU: Yng nghyfarfod y mis yn yr hen ysgol fach, cafwyd gêm dartiau a drefnwyd gan Jenny Hughes a Jinnie Williams. Rhoddwyd y te gan Liz Thomas a Val Davies – Val hefyd a roddodd anrheg y mis ac fe'i enillwyd gan Jackie Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Eto yn yr hen ysgol fach, daeth yr aelodau ynghyd i drafod y cynigion a fydd gerbron y gynhadledd flynyddol yn Llundain. Rhoddwyd anrheg y mis gan Sheila Williams gyda Pat Jones yn ennill. Darparwyd lluniaeth gan Jinnie Roberts a Mair Williams. Bu cynrychiolaeth o Frynrefail yn y 'ras hwyl' a gafwyd yng Nghaernarfon.

CLWB PEDWARUGAIN: enillwyr mis Ebrill: 6 – 1. Sheila Williams, 2. Celt Williams, 3. Gwyn Hefin Jones. 13 – 1. Megan Jones, 2. Gwyn Mowl, 3. Elinor Williams. 20 – 1. Rhian Jones, 2. Audrey Roberts, 3. Myrddin Jones. 27 – 1. Wilbert Williams, 2. Islwyn Jones, 3. Arthur Jones.

MEDAL GEE: Hyfrydwch i ni fel pentrefwyr yw datgan ein llawenydd ac anfon ein llongyfarchiadau gwresocaf i Miss Laura Annie Hughes (gynt o Isfryn) ar ennill Fedal Thomas Gee am ei ffyddlondeb a'i hymroddiad i waith yr Ysgol Sul am gyfnod maith. Mae Miss Hughes, fel y gwyddom, yn hanu o un o deuluoedd hynaf y pentref a rhoddodd flynyddoedd o weithgarwch diflino i Ysgol Sul Brynrefail yn arbennig felly fel athrawes y plant ieuengaf. Ers rhai blynyddoedd bellach, mae'n trigo ym Methesda ac ar fin dathlu ei phen-blwydd yn 86 oed. Nid yw ei hiechyd wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar a'n dymuniad fel ardalwyr yw iddi gael adferiad i'r dyfodol a phob bendith arni am ei gwasanaeth clodwiw.

CARTREFI NEWYDD: Peth go anarferol yw gweld adeiladu tai o'r newydd ym mhentref Brynrefail ond dyna fu'n mynd ymlaen gerllaw ystâd Trem Eilian yn ystod misoedd y gaeaf diwethaf 'ma. Erbyn hyn, mae'r tri byngalo i'r henoed wedi eu cwblhau a'r teuluoedd wedi symud i mewn. Dymunwn bob hapusrwydd yn eu cartrefi newydd i Mrs Grace E. Pritchard, Mr a Mrs Thomas Jones, Mr William Evans a Mrs Eirianwen Evans yn Rhif 1, 2 a 3 Ffrwd Madog.

ARHOLIAD SIROL: Llongyfarchiadau i Catrin Gwyn, Maria Evans ac Eira Wyn Evans o Ysgol Sul Brynrefail ar eu gwaith yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon. Derbyniodd Catrin a Maria dystysgrifau am eu llwyddiant yng Nghyfarfod yr Henaduriaeth yn Nhwrgwyn, Bangor ddydd Mawrth, Mai 15.

CYMANFA DOSBARTH PADARN: Cynhaliwyd Cymanfa'r Dosbarth eleni ddydd Sul, Mai 6 yn Eglwys Rehoboth, Nant Peris. Derbyniodd y canlynol o Ysgol Sul Brynrefail wobrau am eu gwaith yn y gwahanol arholiadau. Yr Arholiad Llafar: Dan 4 oed: Iola Wyn Davies a Rhian Davies, Dan 6 oed: Gareth Davies, Dan 7 oed: Dafydd Euron Williams, Dan 8 oed: Nicola Louise Houston, Marian Lloyd Jones ac Owain Gwyn. Dan 10 oed: Eira Wyn Evans, Dan 11 oed: Catrin Gwyn, Paula Walters a Maria Evans. Dan 12 oed: Caron Haf Jones a Glenda Walters. Dan 13 oed: Einir Gwyn, Joanne Evans a Nerys Ann Williams. Dan 14 oed: Alwen Jane Jones a Jacqueline Walters. Dros 50 oed: Mrs Mair Griffith. Gwnaed y gwaith arholi yn y dosbarth 7-11 oed gan Mrs Ifanwy Jones. Yn yr Arholiad Ysgrifenedig gwobrwywyd Catrin Gwyn, Maria Evans, Eira Wyn Evans a Paula Walters.

## MABOLGAMPAU YSGOL BRYNREFAIL



Capteiniaid Gwyrfai – y tŷ buddugol.

## YMGYRCH GENEDLAETHOL SEFYDLIAD Y GALON CANGEN CAERNARFON A'R CYLCH

Mewn pwyllgor o'r uchod yn ddiweddar, darllenwyd gair o gydnabyddiaeth o'r Swyddfa Rhanbarth am weithgareddau'r gangen sydd bellach ar ei phedwaredd blwyddyn.

Soniwyd yn arbennig am y siec o £2,500 a gyflwynwyd i John Probyn, prif weinyddwr y rhanbarth gan gadeirydd y gangen, Miss Mary Richard, MBE.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar Mehefin 25 a'r wythnos ddilynol trefnir casgliad o dŷ i dŷ, a mawr hyderir y bydd ymateb hael a theilwng o'r ardaloedd.

Os oes unrhyw un yn barod i ddangos cefnogaeth mewn unrhyw ffordd, gofynnir i'r cyfryw gysylltu ag ysgrifennydd y gangen neu unrhyw un o'r swyddogion.

**Cadeirydd: Y Cyng. Miss Mary Richard, M.B.E., Dwylan, Ffordd Bangor, Caernarfon. Ffôn Caernarfon 3092**

**Trysorydd: Mr Wyn Stephens, Plas Cefn Coch, Llanwnda. Ffôn Caernarfon 831297**

**Ysgrifennydd: Mrs Jenny Whittaker, Lynton, Ffordd Bangor, Caernarfon. Ffôn Caernarfon 2497**


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen

Ffoniwch: CAERNARFON 3581


# Bethel

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

YR YSGOL FEITHRIN: Bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Noson Goffi a byrddau gwerthu yn y Neuadd am 6.30 nos Wener, Mehefin 8. Fel arfer ceir stondinau cacennau, poteli, nwyddau amrywiol, tombola ac ati, ond bydd yno un stondin arbrofol hefyd. Bwriadwn werthu nwyddau ail-law, fel dillad plant bach, nwyddau babanod etc am bris rhesymol, a'r gwerthwr yn rhoi 'comisiwn' i'r ysgol feithrin os gwerthir ei eiddo. Os oes gennych unrhyw eitem i'w werthu neu gyfraniad o unrhyw fath at y ffair bydd mamau'r plant sy'n mynd i'r ysgol feithrin, Lynnwen neu Rita yn falch o'u derbyn. Edrychwn ymlaen at eich cwmni ar y noson.

Cynhelir cyfarfod blynyddol yr ysgol feithrin yn y Neuadd bore Iau, Mehefin 21 am 10 a.m. Estynnir gwahoddiad cynnes i famau plant fydd yn ddwy a hanner erbyn Medi 1984, neu yn fuan wedi hynny, ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb yn yr Ysgol Feithrin.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod Mai 9 y gŵr gwadd oedd Mr Norman Williams, Waunfawr. Bu'n trafod rhai sgriptiau gomedi y mae ef yn eu ysgrifennu, sef Hafod Henri a Gwely a Brecwast sydd i'w gweld ar S4C. Yn y cyfarfod codwyd swyddogion newydd am y flwyddyn 1984-85 – Llywydd: Mrs Glenys Griffith, Is-lywydd: Mrs Mair Price; Ysgrifennydd: Mrs Ceinwen Williams; Is-ysgrifennydd: Mrs Rhian Hughes; Trysorydd: Mrs Mair Jones, Is-drysorydd: Mrs Lynwen Morris.

Bydd cyfarfod olaf y tymor nos Fercher Mehefin 13 pryd ceir taith ddirgel a diddorol. Pris y noson fydd £4 sy'n cynnwys mynediad i rhywle diddorol a phryd ysgafn. Enwau ac arian mor fuan ag sydd bosibl i Mrs Mair Read, neu Mrs Alice Jones.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs A. Owen, Rhoslan ar enedigaeth merch fach ar Fai 19, chwaer i Amanda, Judith a Kelvin.

TRIP YR YSGOL SUL: Bydd trip Ysgol Sul Capel y Cysegr yn ymweld â Butlins Pwllheli Sadwrn, Gorffennaf 7. Yr enwau mor fuan ag sy'n bosibl os gwelwch yn dda i Mr Goronwy Jones, Glan Gors.

Yr un diwrnod bydd Ysgol Sul Capel Bethel yn myn i

Y CARNIFAL: Cofiwch bydd wythnos y carnifal yn dechrau nos Sul, Gorffennaf 8 efo'r Gymanfa yng nghapel y Cysegr. Gobeithio eich bod yn brysur yn paratoi'r gerddi at y gystadleuaeth newydd.


JUNE'S MOBILE HAIRDRESSING

Gwasanaeth dydd Llun i ddydd Gwener
9.00 y bore
7.00 gyda'r nos

Ffôn: Bethesda 600688

# DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

YMDDIHEURIAD: Ymddiheurwn am roddi enw ei mam Rita yn berfformiad Sgets yr Ieuenctid Dinorwig, yn lle Sara, yn y rhifyn diwethaf. Dylasai ddarlen fel Miss Olwen B. Roberts, Dona Jones, Delwen Williams, Annwen B. Jones, Sarah Word a Robat Williams.

PRIODAS: Yn Eglwys St Mair, Dinorwig ar Ebrill 28, 1984 priodwyd Miss Cindy Bowden, Bryn Bella, Fachwen â Mr Jim Sladden o Kent. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs Lynes, Snowdon View, Fachwen a'r teulu ym marw ei brawd Tom yn Rugby yn ddiweddar.

O'R YSBYTY: Croeso gartref i Mrs Heulwen Jones, 9 Bro Elidir, Dinorwig wedi llawdriniaeth yn yr ysbyty. Parhaed i wella.

CYMANFA GANU DOSBARTH PADARN: Mai 6 eleni, cynhaliwyd Cymanfa Ganu M.C. Dosbarth Padarn, yng Nghapel Rehoboth M.C., Nant Peris. Dyma'r tro cyntaf erioed iddi fod yno. Cafwyd Cymanfa lewyrchus. Llongyferchir y canlynol o Eglwys Dinorwig M.C. ar fod yn llwyddiannus yn yr Arholiad Llafar – Dan 20 oed: Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Dan 50 oed: Miss Annett Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, a Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir; Dros 50 oed: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian a Mrs Kate L. Hughes, 2 Maes Eilian. Cawsant oll dystysgrifau am eu gwaith. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau cerddorol gan y dair chwaer, Annette, Olwen, a Marina. Yr arweinydd oedd Mrs John Jones, Deiniolen a'r cyfeilydd oedd Mrs J.W. Jones, Rehoboth a Mr Hugh Peris Pritchard, Capel Coch.

CYMANFA GANU BEDYDDWYR SIR GAERNARFON: Eleni fe gynhaliwyd yr uchod yng Nghaersalem, Caernarfon ddydd Sadwrn, Mai 5. Yr arweinydd gwadd oedd Miss Olwen Lewis, Caergybi gyda Mr John Eryl Owen Jones, Caernarfon yn gwasanaethu ar yr organ. Mr Bobi Williams, Deiniolen, llywydd Cymanfa Arfon a oedd cadeirydd cyfarfod y pnawn, a Mrs W. Gwyn Thomas, Pwllheli oedd llywydd oedfa'r hwyr. Fe ofalid am y defosiwn gan ieuenctid Caersalem, Caernarfon, Calfaria Penygroes, Penuel Bangor, a Phenuel Tyddynshôn, ac fe leisiwyd y diolchiadau gan y Parch D.J. Hughes, Nefyn.

Enillwyd tystysgrifau Arholiad Llafar gan y canlynol o Sardis: Eleri Wyn Evans a Siân Wyn Evans. Dyfarnwyd Seren Aur i'r ddwy.

CYRDDAU PREGETHU Sardis (B) Dinorwig: Pentecost yr Eglwys Fore yw amser cynnal yr Ŵyl uchod a'r dyddiad eleni yw **Mehefin 10.** Disgwylir i wasanaethu – y Parch W. Môn Williams, Rhydaman, Dyfed.

# TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU i'r plant canlynol o Eglwys Tan-y-coed M.C. ar eu llwyddiant yn Arholiad Llafar Cymanfa Ysgolion Dosbarth Caernarfon.

Margaret Sian Pritchard, Cefn Llwyd, Sion Arfon Stokes, Arfonia Garage, Steven Prys Williams, Prysgol, Bethan Eilir Williams, 3 Tai Minffordd, Llion Wyn Pritchard, Llys Arfon, Carwyn Humphreys, Clawdd Llwyd, Catrin Williams, 3 Tai Minffordd, Jonathan Prys Williams, Prysgol, Mark Wyn Jones, Dolwen, Tudor Wyn Jones, Dolwen, Aled Parry, Ael y Bryn, David Jones, Min y Parc, Rona Humphreys, Clawdd Llwyd, John Elwyn Jones, Dolwen, Cerwyn Humphreys, Clawdd Llwyd, Annwen Parry, Ael y Bryn, Wyn Parry, Ael y Bryn, Bethan Lewis Parry, Ael y Bryn.

Gwobrwywyd hwy yn y Gymanfa yng Nghapel Engedi M.C. Caernarfon pnawn Sul Mai 6.

Yn y Gymanfa yn yr hwyr y plant canlynol o Dan-y-coed gymerodd ran yn y Gwasanaeth Dechreuol – Wyn Parry, Ffion Jon Williams, Bethan Lewis Parry, Manon Llwyd Evans, Alwena Roberts, Lona Pierce Roberts ac Amlyn Llwyd Evans.

CROESO ADRE: i Mrs Anwen Williams, 3 Tai Minffordd ar ôl triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty. Da deall fod Mrs Williams yn gwella'n dda. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da iddi.

DIOLCH: Dymuna Mrs Williams ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am bob caredigrwydd dderbyniodd ganddynt tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adre.

Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Owen, Is-y-bryn, Tai Trefor ar golli ei chwaer, Mrs Jennie Roberts, Market Street, Caernarfon.

Bu Mrs Roberts farw nos Sul, Mai 13 a chladdwyd hi ym mynwent Llanrug ddydd Iau Mai 17. Y Parch Glyndwr Williams a'r Parch W.O. Roberts yn gwasanaethu yn Is-y-bryn ac yn y fynwent.

I WLAD SHAKESPEARE: Enillodd Mrs Iola Butler y brif wobr mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y 'Daily Post' yn ddiweddar – sef cyfle iddi hi ac unrhyw dri arall i fwrw Sul mewn gwesty moethus yn Stratford-on-Avon.


J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)


# CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar Ebrill 1 bu farw Mrs Nesta Webb, 3 Craig-y-Don, yn 59 mlwydd oed.

Roedd yn gymeriad hynod o siriol a chymwynasgar, ac yn weithgar gyda phob achos da. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Gabriel, Undeb y Mamau a Chlwb Pobl y Cwm.

Bu gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Gabriel gyda'r Parch R. Jones a'r Parch R.M. Jones yn gwasanaethu, ac ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i merch Vera a'i mab yng nghyfraith Dafydd ac i Gareth a Glyn o golli nain mor annwyl a charedig.

ADREF O'R YSBYTY: Da iawn yw deall fod Martin Jones, Arosfa a Mr Aled Evans, Tŷ Newydd wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

CROESO I'W CARTREF NEWYDD: Dymunwn bob dymuniad da i Mr Tom Owen a Mr Lloyd Owen sydd wedi dod o 3 Dôl Afon i fyw i 3 Maes Gerddi.

I Mrs Williams, hithau wedi dod o Dôl Afon, i 2 Maes Gerddi.

I Miss Warder, sydd wedi dod i lawr o'r Bwlch i 1 Maes Gerddi. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartrefi newydd.

YMADAEL Â'R ARDAL: Yn ystod y mis ymadawodd Mr a Mrs Aled Evans, Tŷ Newydd â'r ardal i fyw i Gaernarfon. Dymunwn bob hapusrwydd a dymuniadau da iddynt yn eu cartref newydd.

Y GYMANFA: Dydd Sul, Ebrill 29 cynhaliwyd Cymanfa Ganu Annibynwyr cylch Cwm-y-glo yn y Tabernacl. Yn y prynhawn cafwyd cyfarfod y plant gyda'r Parch Trefor Lewis yn llywyddu. Y thema y tro yma oedd Y Damhegion, a gwnaeth plant y gwahanol eglwysi eu rhan yn rhagorol. Diolch iddynt ac i'w hathrawon am eu hyfforddi. Yn yr hwyr cafwyd canu da gyda Mr Bob Lloyd, Llanberis yn arwain, Mr John Jones, Deiniolen wrth yr organ a Mr Llew Hughes, Cwm-y-glo yn llywyddu. Cafwyd eitemau gan Nan, Llinos a Jacqueline o Carmel.

Diolchwyd i bawb am eu gwaith gan y llywydd ac yn arbennig i'r ysgrifennydd, Mr W. Roberts, Llanberis.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Mai cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones. Dangosodd luniau diddorol a thlws oedd wedi eu tynnu ym mhob rhan o Gymru, – golygfeydd, henebau, eglwysi a cherfluniau. Gwnaeth y lluniau yn fwy cofiadwy drwy drefnu'r noson ar ffurf cwis. Diolchwyd iddi gan Mrs Margaret Williams a mwynhaodd yr aelodau y rhaglen yn fawr.

Rhoddwyd y te a gwobr y raffl gan Mrs E. Hughes a Miss E. Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs G. Chick.

Nos Wener, Mai 18 aeth yr aelodau i Miri Mai yn Ysgol Syr Hugh Owen a chafwyd rhaglen hwyliog iawn wedi ei threfnu gan adran Ogwen o Ferched y Wawr.

Y cyfarfod nesaf fydd Taith Ddirgel ar ddydd Sadwrn, Mehefin 16 yn cael ei threfnu gan Mrs Watkins a Mrs G. Chick.

CLWB POBL Y CWM: Mewn cyfarfod o'r clwb ar Ebrill 26 croesawyd Mr Emyr Jones, Waunfawr gan y llywydd. Adnabyddir ef fel awdur llyfr 'Canrif y Chwarelwr'. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar fandiau pres y cylch, oedd yn chwarae rhan bwysig ym mywyd a diwylliant chwarelwyr, a'u cyfraniad gwerthfawr i fywyd cymdeithasol yr ardaloedd. Enillodd Mr Jones lu o wobrau fel canwr cornet. Diolchwyd iddo gan Mr R.H. Parry a Mrs G. Pritchard, a'r raffl gan Mrs Evans, Gwylfa. Enillwyd y raffl gan Mrs A. Hughes.

Aelod o'r clwb, sef Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd fu yn ein diddori yng nghyfarfod Mai 10, gyda hanes ei ddyddiau cynnar yng Nghlynnog a'r cylch, lle y'i magwyd. Mae'n amlwg fod harddwch ei fro, a'i atgofion o amrywiol gymeriadau ei ardal wedi aros yn fyw ar ei gof. Diolchwyd iddo gan y llywydd, Mr Llew Hughes. Rhoddwyr y te oedd Mrs R.H. Parry a Mrs R. Parry, a'r raffl gan Mrs K. Watkins. Enillwyd y raffl gan Miss E. Hughes. Bydd gwibdaith y clwb yn ymweld â Môn ddydd Iau Mai 24.

## DWY SONED

**I GOFIO:**
**Mr Hugh Jones, Seiont House, Cwm-y-glo**

**A'r flwyddyn ond yn faban wythnos oed,**
**Dyfnhau wnai'r hirlwm ar lechweddau'r fro;**
**Cans fel ymhob rhyw aeaf fu erioed,**
**Un arall hoff a gyrchid tua'r gro.**
**Y blaenor, ddenodd barch ardalwyr lu,**
**Ac oedd yn ffefryn gan bob câr a brawd**
**A gludwyd, ar ysgwyddau iau o'r Tŷ,**
**Fu iddo yn ail-aelwyd ar ei rawd.**
**'Roedd angerdd yn y canu, Duw â'i gŵyr,**
**A gwewyr yn y deyrnged hael, di-fost;**
**Ac er y dagrau, rhyw orfoledd llwyr**
**Yn treiddio drwy bangfeydd y golled dost;**
**Na, ni raid wylo, er y ffarwel trist**
**Yn arwyl un, a roes ei ffydd yng Nghrist.**

**R.H. PARRY**


**HEN GAPEL CWM-Y-GLO**

**Pa rhyw ddirywiad sydd yn peri bod**
**Dy ddrws ynghau, a ninnau'n cofio'r bri**
**Fu i ti unwaith? Ac os troi o'r rhod,**
**Ai doeth oedd llwyr diddymu'th achos di?**
**Fe welodd rhywrai gyda llygaid ffydd**
**Dy angen, ac er cyni, talu'r gôst**
**A wnaethant, gan rhagweld dyfodiad dydd**
**Y galw am dy loches gŵyl, di-fost.**
**Onid oes heddiw angen solas, dwed,**
**Ar fyd sy'n ferw o drybestod cas?**
**Ai di-rym bellach ydyw nerth y gred**
**Goleddwyd ynot ti, i'n hoes di-ras?**
**O Dduw, maddau'r difrawder sydd fel haint**
**Ar led, a'n hymwacad o ffydd y Saint.**

**R.H. PARRY**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# CROESAIR MEHEFIN



**AR DRAWS:**

1. Pa gantorion sy'n cuddio'r anghredadur? (5)
5. Ŷd wedi ei rwymo (5)
8. . . . ap Iwan (5)
9. 25 ceiniog ar ben y bardd? (5)
10. Yna (5)
11. Math o ffidil (5)
12. Cenhedlaeth (wedi dringo efallai!) (2)
13. Rhywbeth llesol pan chwelir ei dai unos (7)
17. Rhif (3)
18. Canu'n . . . (3)
20. Camp Olympaidd Bob Beamon (4,3)
24. Sŵn cras ac uchel (2)
26. ". . . yr Horn" (5)
27. Gweler 21
28. Gostyngeiddrwydd (5)
29. Pres (5)
30. Aeth dau ohonynt i'r coed! (2,3)
31. Di-waith (5)

**I LAWR**

1. Arf i godi gwair (7)
2. Y cartref cyntaf un? (4,4)
3. To ystafell (6)
4. Ymuno, fel gŵr a gwraig (6)
5. Gŵr bonheddig yn ymddangos pan yw Sian yn troi (6)
6. Efo (4)
7. Bargod (5)
14. "O! . . . O! . . . yr hyfryd wawr ar led" (3)
15. Os na (3)
16. Simsan (8)
19. Mae hwn yn fwy eleni, oherwydd y naid! (7)
21 a 27 Pili pala (3,3,2,3)
23. Erfin (6)
24. Ymffrost (5)
25. Y capten penderfynol yn stori 'Moby Dick' y morfil gwyn (4)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon Llanrug. Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

### ATEBION CROESAIR MAI

**Ar draws:** 1. Potes, 5. Hedyn, 8. Tyrru, 9. Nerthu, 10. Dafad. 11. Mabol, 12. Adda, 13. Tu, 14. Genethod, 19. Nodedig, 23. Bo, 24. Acw, 26. Gwael, 27. Amryw, 25. Ymladd, 29. Ymolch, 30. Negydd, 31. Undod.

**I lawr:** 1. Pensaer, 2. Torcalon, 3. Stumog, 4. Crwban, 5. Hudlath, 6. Dofi, 7. Nadau, 15. Ebe, 16. Eli, 17. Diwaelod, 18. Trwydded, 20. Digwydd, 21. Diamod, 22. Gwlychu, 23. Brian, 25. Brig.

Enillydd: **Tudwen Jones, 18 Rhodfa Belmont, Bangor.**

# DYDDIADUR

**MAI 29 - MEHEFIN 2:** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn yr Wyddgrug.

**Mehefin 1, Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed

**4, Llun:** DEINIOLEN: Sefydliad y Merched – sgwrs gan Mrs Ceri Edwards, Fferyllydd ym Mangor ar 'Bersawr'

PENISARWAUN: Noson Goffi Undeb y Mamau er budd Cymorth Cristnogol.

LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

**5, Mawrth:** LLANRUG: Taith ddirgel Merched y Wawr.

**Iau, 7:** WAUNFAWR: Sefydliad y Merched.

DEINIOLEN: Cymdeithas Chwiorydd Capel Disgwylfa.

**8, Gwener:** LLANBERIS: Noson 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

BETHEL: Noson Goffi yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd am 6.30.

**9, Sadwrn:** WAUNFAWR: Gwibdaith Sefydliad y Merched i Ganolfan Crefftau Rhuthun ac i Wrecsam.

LLANRUG: Taith Hanesyddol y Gymdeithas Undebol.

**10, Sul:** LLANBERIS: Cyrddau Pregethu Capel Nant Padarn. Y Pregethwr fydd y Parch W. Stanley Owen, BSc., BD., cyfarfodydd bore a nos.

DINORWIG: Cyrddau Pregethu Capel Sardis.

**11, Llun:** LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30.

**12, Mawrth:** LLANBERIS: Noson o 'Gadw'n Heini' yn Neuadd Ysgol Dolbadarn rhwng 7 a 8.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

BETHEL: Gwibdaith Clwb Bro Bethel i Borthmadog, Tryweryn a'r Bala.

DEINIOLEN: Clwb Elidir.

**13, Mercher:** BETHEL: Taith Ddirgel Merched y Wawr.

LLANRUG: Gwibdaith Clwb Blodau'r Grug i Bwllheli ac Aberdaron.

**14, Iau:** YR ARDAL: Etholiad Senedd Cymuned Ewrop.

**15, Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed.

**16, Sadwrn:** LLANBERIS: Helfa Drysor i barau dan nawdd Pwyllgor y Carnifal. I gychwyn am 10 o'r gloch o Angorfa.

CWM-Y-GLO: Taith Ddirgel Merched y Wawr.

**18, Llun:** LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

**20, Mercher:** DEINIOLEN: Noson 'Cawl a Chân' dan nawdd Cangen Plaid Cymru yng Nghanolfan Dinorwig.

**21, Iau:** LLANRUG: Cyfarfod Cymdeithas y Chwiorydd Capel Pontrhythallt.

WAUNFAWR: Noson coroni Heidi yn Frenhines y Carnifal yn Neuadd yr Eglwys.

BETHEL: Cyfarfod Blynyddol yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd am 10. o'r gloch y bore.

**23, Sadwrn:** LLANBERIS: Gwibdaith Clwb yr Henoed i Landudno.

YR ARDAL: 'Cyffro Castell Penrhyn' – diwrnod o hwyl i'r teulu ym Mharc y Penrhyn o 11.00 tan 5 o'r gloch.

**Mehefin 25-30:** Wythnos Garnifal WAUNFAWR.

**25, Llun:** WAUNFAWR: Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr.

LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30.

**26, Mawrth:** DEINIOLEN: Clwb Elidir.

**27, Mercher:** WAUNFAWR: Gemau Giamocs y Carnifal.

**28, Iau:** LLANBERIS: Taith Ddirgel Sefydliad y Merched.

WAUNFAWR: Taith a Swper Merched y Wawr.

**29, Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed.

**30, Sadwrn:** WAUNFAWR: Carnifal a Mabolgampau.

LLANRUG: Gwibdaith Ysgol Sul Capel Mawr i Butlins Pwllheli

### DYDDIADAU I'W COFIO

**Gorffennaf 7:** Carnifal Cwm-y-glo

Trip Ysgol Sul, Eglwys Santes Helen, Penisarwaun i'r Rhyl.

Trip Ysgol Sul Capel y Cysegr, Bethel i Butlins Pwllheli.

**Gorffennaf 8:** Cymanfa Ganu'r Carnifal yng Nghapel y Cysegr, Bethel

**Gorffennaf 8-14:** Wythnos Garnifal BETHEL.

**Gorffennaf 11-14:** Carnifal DEINIOLEN.


## Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?**
**A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

## Welsh Development Agency



EISIAU CLIRIO'R TŶ

Am gael gwared â hen ddodrefn, celfi ac ati?

Os am werthu neu brynu cysylltwch gyntaf â

# BRIC A BRAC

**(David a Dilys Evans)**

**Ffordd yr Orsaf, LLANRUG**

**Ffôn Caernarfon 76685**

**YN ARDAL ECO'R WYDDFA**
**AR GARREG EICH DRWS**

# CHWARAEON

## RHEDEG YN MARATHON LLUNDAIN

**Anfonodd Owain Eilir Jones lythyr i'r** *Eco* ym mis Ionawr 82 yn cynnig rhedeg o Bontrug i Ben y Pass ac yn ôl i Lanrug, a hynny er mwyn codi arian i'r papur. Ar fore Sadwrn, Ebrill 17eg, cwblhaodd ei orchwyl, ac elwodd y papur ar ei ymdrech. Y llynedd, anfonodd Owain Eilir lythyr tra gwahanol, sef cais am gael rhedeg yn Ras Marathon Llundain – ac fe'i derbyniwyd gan y compiwtar! Oherwydd fod miloedd yn gwneud cais i gael rhedeg yn y ras hon, rhaid defnyddio cyfrifiadur i "benderfynu" ar y rhai lwcus – eleni gwrthodwyd dros 60,000 o geisiadau, ac ychydig dros 21,000 yn unig (!) gafodd eu derbyn. Yn eu plith roedd Owain Eilir.

Pleser gan yr *Eco* yw cael ei longyfarch ar gwblhau'r ras, a disgrifio rhai o'i brofiadau yn Llundain ar y penwythnos bythgofiadwy hwnnw iddo.

**DYDD SADWRN**

Teithio o Fangor ar y trên saith yn y bore, a chael cwmni Don Williams, rhedwr profiadol o Fynydd Llandegai, a oedd hefyd yn cystadlu yn Llundain. Cyrraedd ein gwesty yn Russell Square, a chrwydro tipyn ar y ddinas cyn bwyta pryd o fwyd maethlon, a throi tua'r gwely cyn deg o'r gloch.

**BORE SUL – BORE'R RAS**

Codi'n annaearol o gynnar am 5.30, a gwneud ychydig o ymarfer. Yna, am 6.00 cael brecwast ysgafn o greision ŷd, tost a phaned o de heb siwgr. Newid ar gyfer y Ras, ac yna gorffwys am rhyw chwarter awr, cyn hel ein traed am orsaf Charing Cross a dal y trên i Blackheath (se man cychwyn y Ras). Cyrraedd yno am wyth, a chyfarfod â'r miloedd eraill oedd yno ar yr un perwyl – rhedwyr o bob rhan o'r byd – Seland Newydd, Awstralia, Canada, Hwngari, Ffrainc, yr Unol Daleithiau – a Chymru.

Awr cyn y ras – a cherddoriaeth y ffilm "Chariots of Fire" i'w glywed o'n cwmpas ymhobman – fel pe bai'n ein paratoi'n feddyliol at y ras.

Deng munud cyn cychwyn; a llais o'r corn siarad yn bleoddio ar i bawb symud yn araf tua'r cychwyn. Gweld y cloc amseru yn y pellter, a gwylio'r eiliadau'n tipian i ffwrdd . . . deg . . . naw . . . tri . . . dau . . . un – ac i ffwrdd â ni!

**Y RAS**

Y filltir gyntaf, a chant a mil o bethau'n gwibio trwy'r meddwl, ond yn fwyaf arbennig, y cof o lonydd Llanrug a'r cylch, yr ymarfer am filltiroedd yn y gwynt a'r glaw, y chwysu'n y gampfa'n codi pwysau; – a'r cwbl i gael bod yma heddiw.

Gofalu cymryd diod o ddŵr a glucose yn rheolaidd, a dechrau'r arfer o'r orsaf fwydo gyntaf.

Wedi tair milltir, sylweddoli bod "enwogion" o gwmpas – nid enwog oherwydd eu bod yn rhedwyr, ond enwogion o fyd y teledu – Jimmy "Fix It" Saville a Peter Duncan, cyflwynydd "Blue Peter". Chwilio am gamerau'r BBC er mwyn chwifio dwylo ar bawb oedd yn gwylio adref.


Rhedeg y deng milltir cyntaf yn reit ddi-drafferth, a gofalu yfed digon. Cael amser hefyd i fwyta bar o 'Mars'. Cyrraedd hanner ffordd yn teimlo'n ardderchog. Wynebu tua'r dociau bellach a'r 'Isle of Dogs'. Yma, llawer yn dioddef cramp.

Dod allan o ardal y dociau a chyrraedd yr arwydd 20 milltir. Sylweddoli fod llai na thri-chwarter awr o redeg yn weddill, a diolch fod y dorf yn annog ac yn cefnogi. Llawer ohonynt yn cynnig diod, ac amryw yn rhoi fferins i'r rhedwyr.

Cefnu ar afon Tafwys ar y Victoria Embankment ac anelu am Golofn Nelson. Trwy'r Admiralty Arch ac i'r Mall. Dwy filltir yn unig yn weddill, ond Palas Buckingham yn edrych yn bell iawn. Y penglin chwith yn brifo erbyn hyn, ond roedd y diwedd yn rhy agos i achosi gormod o boendod.

Croesi pont Westminster a gorffen y ras. Edrych ar y cloc amseru, – yn dangos 3 awr 44 munud a 57 eiliad. Derbyn y fedal am fy ngwddf â balchder. Meddwl yn ôl am yr holl ymarfer, a phenderfynu fod y cwbl wedi bod o werth. Roeddwn wedi cwblhau Marathon Llundain.

Carai Owain Eilir ddiolch i bawb a'i cynorthwyodd mewn unrhyw fodd, ond yn enwedig i Ashley Wager o Gwm-y-glo am ei holl gynghorion tra'n ymarfer



## CRICEDWYR BRYNREFAIL

**CRICED:** Dewiswyd Steven Owen (Cwm-y-glo) a Gwyn Morris (Ceunant) i chwarae i dîm criced bechgyn hŷn Ysgolion Gwynedd. Colli wnaeth y bechgyn yn eu gêm gyntaf yn erbyn myfyrwyr y Coleg Normal, Bangor.

## CYFARFOD ATHLETAU YSGOL BRYNREFAIL



*Athletwyr Ysgol Brynrefail.*

**CYFARFOD ATHLETAU:** Cynhaliwyd cyfarfod athletau'r ysgol Mai 15. Dyma'r prif ganlyniadau:

**Victrix Ludorum: Melanie Sellars (Llanberis a Helen Mai Pritchard (Nant Peris).** Y ddwy wedi ennill 40 o bwyntiau. Dyma'r 5ed tro i Melanie ennill y Victrix. Record arbennig a fydd yn anodd iawn i'w gwella. **Victor Ludorum: Stuart Williams (Llanrug)** 27 o bwyntiau. **Perfformiadau Arbennig: Bechgyn dan 13: Paul Prydderch (Llanberis)** ennill 2 gystadleuaeth hefyd ennill 23 o bwyntiau i dŷ Eilian. **Dan 15: Dafydd Jones (Penisarwaun)** ennill 3 cystadleuaeth hefyd ennill 21 o bwyntiau i dŷ Eilian. **Hŷn: Michael Roberts (Cwm-y-glo)** torri record y Pwysau, **Iestyn Jones (Brynrefail)** ennill 3 cystadleuaeth.

**Genethod Dan 13: Bethan Owen (Llanberis)** ennill 2 gystadleuaeth ac yn ail mewn tair. **Dan 15: Nia Owen (Llanberis)** Wedi ennill 3 cystadleuaeth ac yn ail mewn dwy. **Hŷn: Anna Wood (Ceunant)** ennill 26 pwynt i dŷ Eryri. **Perfformiadau canmoladwy eraill: Bechgyn Dan 13: Siôn Dafydd (Llanrug)** ennill 100m a 200m. **Dan 15: Rich Ellis (Deiniolen)** ennill 100m a Pwysau. **Bechgyn Hŷn: Steven Riley (Dinorwig)** ennill 1500 m ac 800 m. **Neal Wannop (Bethel)** ennill Naid Hir a Naid Driphlyg. **M. Coombes (Penisarwaun)** ennill 200 m a 400 m. **Genethod Dan 13: Julie Roberts (Llanrug)** ennill 100 m a Naid Uchel. **Genethod Hŷn: Meirwen Williams (Penisarwaun)** ennill Disgen a Phwysau.

**Cyfanswm pwyntiau: Eryri 146½; Elidir 182; Eilian – 189½; Gwyrfai 205.**

## SGÏO

Yn 1983 cynhaliwyd Pencampwriaeth Sgïo i ysgolion Prydain ar eira, am y tro cyntaf. Gwahoddwyd ugain o ysgolion ar hyd a lled gwledydd Prydain, i gystadlu. Dibynnai'r gwahoddiad ar ganlyniadau cystadlaethau cenedlaethol. Dosbarthwyd fel â ganlyn: Alban 8 ysgol; Lloegr 6 ysgol; Cymru 3 ysgol; Iwerddon 3 ysgol (roedd pedwar aelod i bob tîm).

Tim Lloyd oedd y pencampwr am y tro cyntaf y llynedd a lleolwyd tîm yr ysgol yn unfed ar ddeg (aelodau'r tîm y llynedd ac eleni oedd: Tim Lloyd, Robina a Kirsty McCann a Mathew Ingle).

Eto eleni Tim Lloyd oedd y pencampwr a lleolwyd yr ysgol yn 10fed, ond yn ail tu allan i'r Alban.

## TIMAU BRYNREFAIL – YMATEB

Os ydych am enwau'r timau o Frynrefail 1939, yn rhifyn Mai, amgaeaf hwy, fel y'u cofiaf, gan i mi adael yn 1938.

Diddorol sylwi i John Peris Jones gadw gôl i dîm yr ysgol am bedair blynedd yn olynol.

Gwn fod Ifan Aled wedi'i gladdu. Daeth ef yn drydydd ieuenctid yn Sir Forgannwg, ac mi fu i John Morris foddi wrth geisio achub un o'i ddisgyblion.

Byddai'r tîm ymarfer corff yn rhoi arddangosfa ym mabolgampau'r ysgol, o dan athrawiaeth Powell Jones.

Amser fythgofiadwy.

Yn gywir,
Gron Owen

**O.N.** *Mary Owen o Frynrefail yw'r ferch na enwyd yn y tîm hoci: 1af ar y chwith, rhes ôl.*

*Mae Mena Jones yn byw ym Muallt, a deallaf fod Buddug wedi ymfudo i Canada.*

**Tim Ymarfer Corff, chwith i'r dde:**
*Rhes ôl: Ifan Aled Jones (Llanrug); Bertie (Bach, Caernarfon; Llew Jones (Llanberis); Huw Ron Roberts (Llanberis); Iorwerth Thomas (Brynrefail); Trefor Ellis (Deiniolen); John Olaf Williams (Llanrug).*
*Rhes flaen: —?; Len Parri (Cwm-y-glo); Robbie Williams (Llanberis); Cled Jones (Llanrug); —? —? Berwyn Jones (Llanberis); John Morris (Fachwen).*

**Tim Pêl-droed:**
*Rhes ôl: Bertie (Bach); Len Parri; —? John Peris Jones; ?Dafydd Orwig, ?Bobbie Cross? Deiniolen; Ifan Aled Jones; John ?; Bracegirdle (Llanrug).*
*Rhes Flaen:*
*Mr Powell Jones, John Morris, Huw R. Roberts, Trefor Ellis, Iorwerth Thomas, Mr Glyn Jones.*

**O.N.** — *Llus enw. Ni chofiaf enw iawn Bertie. Cafodd Bobbie ei lusenw am ei fod yn erfyn beunydd i rhywun groesi'r bêl iddo, ond rydwi'n ansicr ohono.*

**COFIWCH**
TLWS ECO'R WYDDFA
PÊL-DROED
6-BOB-OCHR PLANT
CYNRADD
GORFFENNAF 4 CAE
YSGOL LLANRUG